



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Cymunedau

Dyddiad: Date Not Specified

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 1 MAWRTH 2012 am 9.30 am yn CONFERENCE ROOM 1A, COUNTY HALL, RUTHIN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

RHAN 1 - FE WAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN YMA O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod yma.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 1 - 10)

I dderbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 19^{eg} Ionawr 2012.

5 DIGWYDDIAD BEICIO ETAPE CYMRU (Tudalennau 11 - 16)

I ystyried adroddiad (copi'n amgaeedig) gan Brif Swyddog Adfywio a Strategaeth Fuddsoddi sy'n rhoi manylion y trefniadau ar gyfer digwyddiad Etape Cymru 2011 a'r effaith a gafodd ar y gymuned leol, ac yn gofyn am arsylwadau'r Pwyllgor i gynorthwyo gyda gwella strategaethau cynllunio a chyfathrebu ar gyfer unrhyw ddiwyddiad tebyg yn y dyfodol.

6 FFFIOEDD A THALIADAU ANGORI HARBWR Y FORYD (Tudalennau 17 - 24)

I ystyried adroddiad gan Reolwr Prosiect y Rhyl yn Symud Ymlaen a'r Rheolwr Adfywio a Datblygu Morwrol (copi'n amgaeedig) sy'n ceisio arsylwadau'r Pwyllgor a chefnogaeth i'r trefniadau rheoli arfaethedig a'r taliadau am angori yn Harbwr y Foryd.

7 NEWIDIADAU I'R STRATEGAETH CEFNOGI POBL AR GYFER 2012 I 2014 A'R CYNLLUN GWEITHREDOL AR GYFER 2012/13 (Tudalennau 25 - 52)

I ystyried adroddiad (copi'n amgaeedig) gan y Rheolwr Cefnogi Pobl sy'n ceisio barn y Pwyllgor ar y Strategaeth Cefnogi Pobl ar gyfer 2012 i 2014 a'r Cynllun Gweithredol cysylltiedig ar gyfer 2012/13.

8 AROLWG PRESWYLLWYR (Tudalennau 53 - 56)

I ystyried adroddiad (copi'n amgaeedig) gan y Swyddog Gwella Corfforaethol sy'n darparu canfyddiadau'r Arolwg Preswylwyr ac sy'n ceisio barn y Pwyllgor ynglŷn â sut y dylid gweithredu'r argymhellion sy'n deillio o'r arolwg a'u monitro wedi hynny.

9 CYLLID CYMUNEDOL (Tudalennau 57 - 70)

I ystyried adroddiad (copi'n amgaeedig) gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau sy'n darparu Aelodau â throsolwg o'r system ar gyfer dyrannu cyllid i Grwpiau Aelodau Ardal a manylion cyllid cymunedol potensial yn y dyfodol. Yn ogystal mae'r adroddiad yn amlinellu cynigion i ddatblygu Cronfa Waddol Gymunedol ac yn ceisio barn y Pwyllgor ar effeithiolrwydd y cyllid a ddyrannwyd i Grwpiau Aelodau Ardal ac ar y cynigion i greu Cronfa Waddol.

10 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 71 - 86)

I ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi'n amgaeedig) sy'n ceisio adolygiad o flaenraglen waith y pwyllgor ac yn diweddarau aelodau ar faterion perthnasol.

11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

I dderbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor

RHAN 2

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Ian Armstrong
Brian Blakeley
June Cahill
James Davies
Diana Hannam
Rhys Hughes

Richard Jones
Peter Owen
David Smith
Selwyn Thomas
Cefyn Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cyngorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Agenda Eitem: 4

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Y Rhyl ar ddydd Iau, Ionawr 19^{eg}, 2012 a 9.30 y.b.

PRESENNOL

Y Cyngorwyr D.I. Smith (Cadeirydd), I.W. Armstrong, B. Blakeley, J. Cahill, J.M. Davies, D. Hannam, R.T. Hughes, P.W. Owen a C.H. Williams

Fe fynychodd y Cyngorwyr M.L. Davies, R.L. Feeley a D. Owens fel sylwedyddion ac roedd y Cyngorwyr I. Gunning yno fel cynrychiolydd y Cyngor ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

HEFYD yn BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau (HW), Prif Gwnstabl: Heddlu Gogledd Cymru (MP), Prif Arolygydd Sir Ddinbych: Heddlu Gogledd Cymru (IJ), Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau: Heddlu Gogledd Cymru (MP), Pennaeth Rheoli Cyfleusterau: Heddlu Gogledd Cymru (SR), Prif Weithredwr: Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. (TM), Aelod o'r Awdurdod Heddlu (DW), Rheolwr Prosiect: Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (SLP), Rheolwr Adfywiad a Datblygiad Morol (MB), Rheolwr Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen (TB), Rheolwr Strategaeth Tai (SK), Swyddog Strategaeth Tai (SL), Pennaeth Gweithrediadau: Priffyrdd a Seilwaith (MH), Rheolwr Adran: Rheoli Rhwydwaith (TT), Cydlynnydd Craffu (RE) a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (RAH).

PWYNTIAU a HYSBYSWYD

Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ac estynnodd groeso arbennig i gynrychiolwyr Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a oedd wedi mynychu.

Fe hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r drefn busnes yn cael ei newid fymryn ac fe gynigiodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn ystyried Adolygiad Ystâd Heddlu Gogledd Cymru cyn derbyn cofnodion y cyfarfod diwetha'. Fe wnaed cais hefyd i'r eitem ar y Strategaeth Tai Lleol gael ei ystyried cyn yr eitem ar Ladd Gwair Ymyl Priffyrdd er mwyn galluogi swyddogion Priffyrdd i deithio yma o gyfarfod arall. Fe dderbyniwyd hyn gan aelodau'r Pwyllgor.

Fe longyfarchodd y Cadeirydd dref Y Rhyl ar gael eu henwi yn derfynydd yng nghystadleuaeth Cymru yn ei Blodau.

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorwyr E.R. Jones ac S. Thomas.

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd I.W. Armstrong fuddiant personol a rhagfarnol yn eitem busnes 6 fel Cadeirydd fforwm Harbwr y Foryd ac aelod o Glwb Hwyllo'r Rhyl.

3. MATERION BRYN FEL Y CYTUNIR GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau a oedd, ym marn y Cadeirydd, i'w hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. ADOLYGIAD YSTÂD HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Fe gychwynnodd Mr. Mike Parkin, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau: Heddlu Gogledd Cymru (CCA:HGC), trwy roi trosolwg o'r pwysau ariannol yn wynebu Heddlu Gogledd Cymru yn dilyn toriadau cyllidol wnaed i wasanaethau cyhoeddus a'r ystyriaethau sy wedi ysgogi'r adolygiad o Ystâd yr Heddlu.

Fe hysbyswyd y Pwyllgor fod y Gwasanaeth Heddlu'n wynebu toriadau o 20% mewn cyllido ac yn gorfod gwneud arbedion gwerth £16m o'u cyllideb. Er mwyn dod o hyd i'r arbedion hyn, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi clustnodi dileu swyddi 150 o Swyddogion yr Heddlu a lleihad yn y gyllideb ddi-dâl (non-pay) o oddeutu £5m. Fe adolygwyd nifer y diswyddiadau i oddeutu 130 o swyddogion yr heddlu ac oddeutu 112 o staff sifil. Fodd bynnag, golygodd hyn y byddai'r arbedion cyllid di-dâl yn cynyddu'n sylweddol gan fod costau tâl yn cyfrif am fwyafrif gwariant cyllideb yr Heddlu. Fe amcangyfrifir y gellid cael hyd i'r rhwng £1.2 - £1.4m o'r arbedion cyllideb ddi-dâl trwy adolygiad Ystâd yr Heddlu, a all gyfrif am 9% o'r holl arbedion.

Fe hysbysodd CCA:HGC y Pwyllgor fod cadw adeiladau a oedd yn heneiddio ac yn ddrud yn llai pwysig na chadw staff ac y byddai cynnal cyfleusterau segur yn golygu chwilio am arbedion rywle arall, a allai arwain at ddiswyddiadau pellach.

Rhoddodd Mr. Stephen Roberts, Pennaeth Rheoli Cyfleusterau: Heddlu Gogledd Cymru (PRhC:HGC) gyflwyniad i'r Pwyllgor o'r prif argymhellion a ddeilliodd o adroddiad Adolygiad yr Ystâd a gwblhawyd gan DTZ ym mis Hydref 2011. Roedd yr adroddiad yn cynnig:

- cyfuno gwasanaethau ym Mhencadlys yr Heddlu ym Mae Colwyn ac ym Mhencadlys y Gwasanaeth Heddlu Lleol yn Llanellwyr;
- cau swyddfeydd Adran Gweinyddu Cyfiawnder ym Mhrestatyn; ac
- rhoi ystyriaeth i adael Canolfan Hyfforddi'r Llu a'r Ganolfan Cyd-gyfathrebu yn Llanellwyr pan ddaw prydles i'r adeiladau hyn i ben yn 2015.

Roedd yr adroddiad yn argymhell y dylai'r Llu weithredu o 9 Canolfan Ymateb ac y dylid adolygu darpariaeth y 40 Gorsaf Heddlu. O'r 40 gorsaf, mae'r adroddiad yn cynnig y dylid cadw 9 ohonyn nhw, 12 i'w hadleoli, 4 i'w cau a'r 15 sy'n weddill i'w hadolygu. Fe ddefnyddiwyd adleoliad arfaethedig gorsaf heddlu Treffynnon fel esiampl o'r arbedion y gellid eu gwneud trwy symud i gyfleusterau a rennir.

Fe eglurodd PRhC:HGC y weithdrefn ymgynghorol ar gyfer Adolygiad yr Ystâd , gan hysbysu'r Pwyllgor fod ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion yn digwydd rhwng Rhagfyr 9^{fed}., 2011 ac Ionawr 31^{ain}., 2012 a bod dadansoddiad datganiad drafft o Adolygiad yr Ystâd ar gael i'w weld gan y cyhoedd ar wefan Awdurdod yr Heddlu. Fe hysbyswyd y Pwyllgor y cyflwynir Strategaeth derfynol yr Ystâd ar gyfer ei chymeradwyo mewn cyfarfod o'r Awdurdod Heddlu ar Chwefror 17^{eg}., 2012. Pe caiff y cynllun terfynol ei gymeradwyo yn y cyfarfod hwn, fe weithredir yr argymhellion dros 5 mlynedd, gydag arbediad rhagamcanol o £16.5m yn y cyfnod hwn.

Sicrhaodd Mr. Douglas Wynne YH, aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru (AHGC) y Pwyllgor, fod Awdurdod yr Heddlu yn cefnogi'r Strategaeth a bod yr Awdurdod yn ymwneud â'r ymgynghoriad presennol i sicrhau na fydd Adolygiad yr Ystâd yn llesteirio perfformiad Heddlu Gogledd Cymru.

Fe ychwanegodd Mr. Mark Polin, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru (PG:HGC), fod y pwyslais, yn dilyn adolygiad o gyllideb a chyllid Heddlu Gogledd Cymru, ar gadw lefelau staffio a chynnal presenoldeb yr Heddlu. Yn bellach, dywedodd fod yr Heddlu yn recriwtio Swyddogion yr Heddlu ond na fyddai niferoedd cyffredinol y Swyddogion yn cynyddu.

Fe wahoddodd cynrychiolwyr Heddlu Gogledd Cymru ac AHGC gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor ynglŷn ag Adolygiad yr Ystâd a'i effaith ar Gyngor Sir Ddinbych a thrigolion Sir Ddinbych.

Fe holodd y Cynghorydd D. Hannam faint o ymdrech a wnaed i sicrhau y parheir i gynnal presenoldeb yr Heddlu, gan ychwanegu y dylai'r Heddlu ganolbwyntio ar warantu diogelwch yn y gymuned trwy ddarparu presenoldeb gweledol. Fe fynegodd y Cynghorydd Hannam ei phryder am y cynnydd mewn achosion o drais yn erbyn yr unigolyn, troseddau rhywiol a lladrad rhwng 2001 a 2009.

Fe gyfaddefodd PG:HGC fod cyfraddau troseddu yn gyffredinol wedi cynyddu o 4% a bod lladradau wedi codi 25% a bod Heddlu Gogledd Cymru yn rhannu cyfrifoldeb am hyn, ochr yn ochr â'u partneriaid lleol eraill a oedd hefyd yn wynebu toriadau cyllideb. Fe ychwanegodd y byddai Heddlu Gogledd Cymru yn arfer ymateb i bob trosedd a hysbyswyd, ond nad oedd i'w weld yn ddefnydd effeithiol o amser Swyddogion. Roedd yn rhaid i Heddlu Gogledd Cymru addasu i'r golled mewn ariannu ac roedd Adolygiad yr Ystâd yn un ffordd o gynnal gwasanaethau cyfredol heb aberthu nifer anghymesur o staff.

Fe gwestiynodd y Cynghorydd R.T. Hughes y cynlluniau ar gyfer ei ward yn Llangollen, gan sylwi mai prin oedd yr adegau roedd gorsaf yr heddlu yn Llangollen yn cael ei staffio ac er mai tref fechan ydi Llangollen, roedd y boblogaeth yn chwyddo'n arw ar adegau'r digwyddiadau mawrion. Fe fynegodd y Cynghorydd Hughes ei siom na fu ymgynghori ag ef ar gynlluniau heddlua yn yr ardal.

Fe gadarnhaodd Prif Arolygydd Sir Ddinbych (PA:HGC) fod HGC yn ymchwilio i'r posibiladau o adleoli Gorsaf Heddlu Llangollen. Fodd bynnag, caiff heddlua Llangollen gymorth y swyddogion a leolir yng Nghanolfan Ymateb Corwen ac fe

roddodd y Prif Arolygydd sicrwydd y byddai adnoddau priodol, megis Swyddogion Heddlu a Chwnstabiliaid Gwirfoddol, yn cael eu neilltuo ar adegau prysur. Fe ddywedodd hefyd wrth y Cynghorydd Hughes y byddid yn ymgynghori ag ef yn y dyfodol ar ddarpariaeth heddlua i ddod yn Llangollen, fel ag y byddai pob cynghorydd yn eu hardaloedd lleol.

Ychwanegodd PG:HGC, er ei fod yn deall awydd y cyhoedd i gael gorsaf heddlu lleol i'w ddefnyddio fel man cyswllt, y byddai i'r Heddlu barhau i gynnig gwasanaethau sy'n segur yn ddefnydd aneffeithiol o adnoddau. Byddai hyn yn golygu gorfod canfod arbedion rywle arall a all, fel canlyniad, arwain at ddiswyddiadau staff pellach.

Ychwanegodd Prif Weithredwr AHGC, Mr. Tal Michael, fod yr Heddlu ar gael trwy gysylltu ar '999', neu '101' mewn achosion nad ydyn nhw'n rhai brys a'i fod yn fwy effeithiol i'r cyhoedd alw am gymorth pan fo angen yn hytrach na chynnal gwasanaeth aneffeithiol. Fe nododd Mr. Michael y prosiect a arweinir gan Gyngor Sir y Fflint a fyddai'n dod â gwasanaethau'r cyhoedd ynghyd mewn lleoliad ar y cyd, gyda budd derbynfa cyffredinol ar gyfer ymholiadau megis cymorth yr Heddlu mewn achosion nad ydyn nhw'n rhai brys, fel cyfle i'w harchwilio.

Gofynnodd y Cynghorydd B. Blakeley os byddai'r cyfyngiadau cyllidol ar yr Heddlu yn golygu symud oddiwrth gyfarfodydd heddlua cymunedol. Datganodd PG:HGC y byddai'r cyfarfodydd hyn yn parhau ac nad oedd awydd i leihau'r lefel o ryngweithio gyda chymunedau lleol. Fe'i ail-ategwyd y byddai adolygiad o Ystâd yr Heddlu yn gymorth i alluogi'r math yma o ymwneud â'r gymuned i barhau.

Fe rybuddiodd y Cadeirydd y gallai gau gorsafoedd heddlu arwain at ddirnadaeth negyddol ar ran y cyhoedd o'r modd mae Heddlu Gogledd Cymru yn mynd i'r afael â heddlua cymunedol ac y gellid ymateb i hyn trwy gynyddu patrols gan Swyddogion yr Heddlu. Byddai presenoldeb yr Heddlu yn allweddol er mwyn tawelu meddwl trigolion.

Ymateb CCA:HGC oedd dweud na fyddai cau cyfleusterau o reidrwydd yn gyfystyr â lleihad mewn presenoldeb. Nododd esiampyl yr Adran Gweinyddiad Cyfiawnder yn symud o orsaf heddlu Prestatyn i leoliad ar y cyd yn y dref fel modd gallu lleihau costau adeiladau wrth gynnal presenoldeb lleol.

Cwestiynodd y Cynghorydd J.M. Davies sut y byddid yn defnyddio'r adeilad wedi'r symudiad hwn. Dywedodd PRhC:HGC mai dim ond trwy werthiant yr adeilad y gellid sicrhau arbedion llawn, ond y byddai gwagu'r adeilad yno'i hyn yn cyfrif am 60% o'r arbediad hwn. Fodd bynnag, byddai rhaid cynnal trafodaethau gyda defnyddwyr eraill yr adeilad cyn y gellid ei werthu.

Canmolodd y Cynghorydd R.L. Feeley y defnydd o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) wrth ddelio â mân droseddau, ond dywedodd y credai nad oedd adolygiad drafft o ystadau'r heddlu wedi ystyried hyn wrth gynnig cau gorsafoedd heddlu llai. Fe bwysleisiodd y Cynghorydd Feeley hefyd nad oedd hi'n ymddangos fod cynllun i ddelio â'r effaith a gaiff yr adolygiad ar heddlua cymunedol.

Ymatebodd Prif Weithredwr AHGC trwy ddweud na ellid cynllunio'n fanwl cyn cynnal ymgynghoriad ar y strategaeth arfaethedig. Fe ofynnir am fewnbwn y Cyngor pan ddatblygir y cynlluniau manwl ar gyfer gorsafoedd unigol.

Gofynnodd y Cynghorydd M.L. Davies pam fod Cwnstabliaid Gwirfoddol yn ymgymryd â gwaith y dylai Swyddogion llawn yr Heddlu ei wneud, yn hytrach na chanolbwyntio ar gefnogi gweithgareddau cymunedol. Eglurodd PA:HGC, er mai swyddogaeth penna'r Cwnstabliaid Gwirfoddol oedd cefnogi heddlua cymunedol, roedd rhoi caniatâd i Gwnstabliaid Gwirfoddol ennill profiad mewn agweddau eraill o heddlua yn helpu datblygu eu sgiliau cyffredinol a fyddai wedyn yn cael eu hailgymhwyso wrth heddlua'n gymunedol.

Fe nododd y Cynghorydd M.L. Davies hefyd ei fod yn sylwi nad oedd gorsafoedd heddlu megis y Pencadlys Rhanbarthol yn Llanelwy a'r orsaf yn Ninbych ar agor pedair awr ar hugain ac roedd aelodau'r cyhoedd yn cael trafferth cael hyd i swyddogion am gymorth. Eglurodd PRhC:HGC nad Heddlu Gogledd Cymru oedd piau'r adeilad yn Llanelwy ac felly y byddai ymestyn yr oriau agor yn peri costau gan ei fod yn adeilad Menter Cyllid Cyhoeddus (MCC), yn ogystal â chynyddu'r costau staffio, eto'n tarfu ar ddarpariaeth gwasanaethau eraill.

Roedd y Cynghorydd D. Owens yn datgan nad oedd cyfeiriad at 'ôl-troed Carbon' yn yr Adolygiad Ystadau, a fu'n flaenoriaeth i Gyngor Sir Ddinbych. Atebodd PRhC:HGC fod Heddlu Gogledd Cymru yn glynu at ymrwymiadau lleihau carbon ac wedi bod yn cyfarfod eu targedau'n llwyddiannus. Hysbyswyd aelodau fod mwy o wybodaeth ynglŷn â hyn ar gael ar wefan Heddlu Gogledd Cymru.

Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Cynghorydd I. Gunning, a wasanaethodd fel cynrychiolydd y Cyngor ar AHGC, ei fod wedi ymrwymo ar y cychwyn i amddiffyn y gorsafoedd heddlu cymunedol rhag y bygythiad i'w cau, ond wedi ystyried y cynigion a ddeilliodd o'r adolygiad, roedd bellach yn gadarn o'r farn eu bod yn cynrychioli cam bositif ymlaen ac yn cynnig gwell ansawdd gwasanaeth i drigolion. Roedd bellach yn cefnogi'n llawn y cynlluniau a gynhwysir yn Adolygiad yr Ystâd.

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Heddlu Gogledd Cymru am fynychu'r cyfarfod a chytunodd i lunio ymateb ar ran Cyngor Sir Ddinbych i'r cynigion a gyflwynwyd o dan Adolygiad yr Ystâd. Fe:

BENDERFYNWYD - y byddai'r,

a) Pwyllgor yn derbyn y cyflwyniad ac yn nodi'r ffactorau a ysgogodd Adolygiad yr Ystâd; a

b) bod ymateb swyddogol yn cael ei ddrafftio a'i gyflwyno i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, yn nodi'n ffurfiol sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor.

5. COFNODION

Fe gyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar ddydd Iau, Rhagfyr 8^{fed}, 2011.

Fe adroddwyd ar y datblygiadau hyd yn hyn yn gweithredu penderfyniadau'r Pwyllgor o'r cyfarfod, yn Atodiad 3 o'r Rhaglen Waith ac yn y Briff gwybodaeth a gylchredwyd ymysg aelodau'r Pwyllgor.

Eitem busnes 6: Arolwg Estyn o Addysg Gymunedol Oedolion Sir Ddinbych - fe hysbyswyd y Pwyllgor gan y Cydlynnydd Craffu na dderbyniwyd eto ymateb gan Swyddog Effeithiolrwydd Perfformiad Addysg: Uwchradd ac y byddai camau dilynol.

PENDERFYNWYD - *fod, yn amodol ar yr uchod, y cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.*

6. FFI OEDD A CHOSTAU ANGORFA HARBWR Y FORYD

Roedd Rheolwr Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen a'r Rheolwr Adfywiad a Datblygiad Morol wedi paratoi adroddiad i'r Pwyllgor ei ystyried ynglyn â'r trefniadau rheoli arfaethedig ar gyfer Harbwr Y Foryd.

Cyn cyflwyniad yr adroddiad, fe gynigiodd y Cynghorydd Brian Blakeley, gan nad oedd Fforwm Harbwr Y Foryd wedi'u hymgyngori ynglyn â'r ffioedd a'r costau a'r trefniadau rheoli fel y'u gwelir yn yr adroddiad, y dylid gohirio'r eitem hyd nes digwydd ymgynghoriad llawn ar y cynlluniau.

Doedd gan y Rheolwr Prosiect: Busnes, Cynllunio a Pherfformiad ddim gwrthwynebiad i ohirio'r eitem hyd at gyfarfod diweddarach, ond pwysleisiodd fod angen cymeradwyo'r cynlluniau cyn gynted â phosib, cyn diwedd tymor yr haf os oes modd.

Fe dderbyniodd y Cadeirydd, gyda chefnogaeth y Pwyllgor, fod ymgynghoriad gyda Fforwm Harbwr Y Foryd yn angenrheidiol a chytunodd i ohirio trafodaeth ar yr eitem hon hyd at gyfarfod nesa'r Pwyllgor ar Fawrth 1^{af}., 2012. Byddai hyn yn caniatáu amser i Fforwm Harbwr Y Foryd i gyfarfod a chyfleu unrhyw bryderon i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

PENDERFYNWYD - *y gohirid yr eitem a drefnwyd ar Ffioedd a Chostau Angorfa Harbwr Y Foryd hyd at gyfarfod nesa'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i'w gynnal ar Fawrth 1^{af}., 2012.*

7. STRATEGAETH TAI LLEOL

Cyflwynodd Swyddog Strategaeth Tai (SST) ei hadroddiad, a gylchredwyd cyn y cyfarfod, oedd yn rhoi diweddariad ar y datblygiadau a wnaed mewn perthynas â'r cynllun gweithredu Strategaeth Tai Lleol ar gyfer 2011/12, yn manylu ar nifer y cartrefi fforddiadwy a ddatblygwyd a'r sianelau ariannu a sicrhawyd.

Fe hysbyswyd y Pwyllgor yr ymgwymerir ag adolygiad o'r Strategaeth Tai Lleol yn ystod 2012, a fyddai'n cynnwys archwilio ffyrdd o gydweithredu ar faterion tai gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Caiff polisi tai fforddiadwy'r Cyngor ei hadolygu hefyd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n codi.

Fe sicrhawyd ariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu ail-ddatblygu ardal o Orllewin Y Rhyl, yn targedu lleihau'r nifer o Dai Amlfeddiannaeth (TA) a datblygu tai teuluol newydd. Fe ragwelid mai canlyniad hyn fyddai ail-gartrefu hyd at 120 o drigolion. Cydnabuwyd y gwelid adfywio'r ardal hon fel prif her ac roedd polisi i gynnal trigolion a ddadleolwyd yn cael ei datblygu.

Fe nodwyd ymhellach, oherwydd lleihad sylweddol yn yr ariannu gan Lywodraeth Cymru, fod mecanweithiau ariannu amgen yn cael eu dilyn ac y byddai'r adran yn bachu ar unrhyw gyfle am ariannu.

Yna, fe wahoddodd y Rheolwr Strategaeth Tai (RhST) a'r SST gwestiynau a sylwadau gan aelodau'r Pwyllgor ar sut y gellid gwella'r strategaeth.

Fe gwestiynodd y Cynghorydd R.L. Feeley y rheidrwydd polisi y dylai'r holl fentrau tai a adeiledir o'r newydd gynnwys o leia' 30% o gartrefi a ddsberthir fel tai fforddiadwy, yn awgrymu fod rhai prosiectau tai wedi cael eu canslo oherwydd y polisi hwn a thra bo'r egwyddor hon yn gymeradwy, fe all fod yn wrthgynhyrchol yn ymarferol. Datganodd y RhST i lai o dai fforddiadwy ddod ar gael oherwydd i'r dirywiad economaidd achosi lleihad cyffredinol yn nifer y tai newydd eu hadeiladu. Fe ychwanegodd hefyd, lle nad oedd hi'n hyfyw yn economaidd i ddatblygwyr warantu y byddai 30% o gartrefi o fewn prosiect adeiladu arfaethedig i'w dosbarthu fel 'fforddiadwy', roedd y polisi'n caniatâu rhywfaint o hyblygrwydd wrth gyfarfod â'r gofyn. Fe gydnabuwyd, lle bo gwarant o 30% o dai fforddiadwy yn peri problemau a osodai risg ar y prosiect yn gyfan gwbl, ei bod hi'n well cael canran is o dai fforddiadwy na dim o gwbl. Fe bwysleisiwyd hefyd fod y polisi wedi gweithio'n arbennig o dda mewn ardaloedd gwledig, lle'r oedd tai yn brin ac yn bell tu hwnt i brynwyr tro cyntaf.

Fe gofnododd aelodau'r Pwyllgor bryder ynglyn ag adleoliad pobl o ganlyniad i'r ailddatblygiad yng Ngorllewin Y Rhyl. Eglurodd y RhST eu bod yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a adleoliwyd i sicrhau y byddai eu hadleoliad yn broses esmwyth a boddhaol. Roedd y rhelyw o'r teuluoedd wedi datgan eu dymuniad i barhau yn yr ardal.

Fe godwyd pryder hefyd ynglyn â lefel yr amddifadedd mewn ardaloedd megis Gorllewin Y Rhyl a bod mewnlifiad o ardaloedd eraill yn dwysáu'r problemau cymdeithasol dwfn roedd ardaloedd megis y rhain yn eu profi eisoes. Fe sicrhodd y RhST y Pwyllgor nad oedd polisi pendant i ddod â phobl i mewn i Sir Ddinbych ac fe briodolodd poblogrwydd Y Rhyl i argaeledd llety cymharol rad. Fe nodwyd y byddai angen buddsoddiad preifat ar raddfa fawr ar Orllewin Y Rhyl os am newid demograffeg gymdeithasol yr ardal, ond y byddai cyswllt cymdeithasol effeithiol yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at helpu'r broses hon.

Fe gwestiynodd cynghorwyr faint o'r eiddo a oedd yng nghategori 'gartrefi fforddiadwy' oedd yn wag yn bresennol yn Sir Ddinbych a hefyd faint o gartrefi posib yn gyffredinol oedd yn wag. Fe ddatganodd y RhST fod unrhyw 'gartrefi fforddiadwy' gweigion fel arfer oherwydd trosglwyddiad ac nad oedden nhw'n wag am yn hir. Fe roddir cyfanswm y cartrefi gweigion ar hyd a lled Sir Ddinbych oddeutu 800, y rhan fwyaf mewn perchnogaeth breifat. Roedd angen gwaith cynnal a chadw ar nifer o'r eiddo gwag hyn i'w gwneud yn gyfanheddol ac roedd Tîm Cartrefi Gweigion Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio i hwyluso gwaith adnewyddu.

Roedd y Cadeirydd o'r farn fod y strategaeth ar gyfer Gorllewin Y Rhyl yn teilyngu craffu pellach a diolchodd i'r Rheolwr Strategaeth Tai a'r swyddog Strategaeth Tai am fynychu'r cyfarfod. Fe:

BENDERFYNWYD - fod y Pwyllgor yn,

a) nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn cynllun gweithredu Strategaeth Tai Lleol 2011/12 a'r heriau a wynebwyd wrth gyrraedd y prif gamau;

b) argymhell i'r prif brosiectau allweddol a restrir yn yr adroddiad gael eu cynnwys yn Strategaeth Tai Lleol diwygiedig 2012/17 ac y dylid ychwanegu pwyslais arwyddocaol yn y Strategaeth ddiwygiedig ar yr angen i ddychwelyd cartrefi gweigion yn ôl i feddiannaeth; ac yn

c) argymhell fod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn ystyried y Pwyllgor mwya' priodol i graffu ar Strategaeth Gorllewin Y Rhyl;

8. LLADD GWAIR YMYL PRIFFYRDD

Fe gyflwynodd Pennaeth Gweithrediadau: Priffyrdd a Seilwaith (PG:PS) a'r Rheolwr Adran: Rheoli Rhwydwaith (RhA:RhRh) adroddiad i'r pwyllgor yn rhoi manylion am yr opsiynau ar gael ar gyfer rhaglen lladd gwair ymylon ffyrdd y Cyngor. Cynigiodd yr adroddiad ddau opsiwn:

1) opsiwn i ymgymryd â thoriad cychwynnol ar droeon mewnol a chyffyrdd yn unig (toriad Bioamrywiaeth) gan ddilyn gyda thoriad llawn yn hwyrach yn y tymor, fel y digwyddodd llynedd; a'r

2) opsiwn o ddychwelyd at ddau doriad llawn y flwyddyn fel mewn blynyddoedd cynt.

Fe eglurwyd fod y 'toriad Bioamrywiaeth' yn caniatâu un ochr i ymylon ffyrdd dyfu sy'n cyfyngu ar y canlyniadau ecolegol negyddol, ond y byddai'n cael yr effaith o 'gulhau' y lonydd cerbydau mewn rhai mannau ac yn edrych yn llai taclus na'r toriad llawn.

Llynedd, fel rhan o'r prosiect cydweithredu gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, daethpwyd â chontractwyr allanol i ymgymryd â'r gwaith o ladd gwair ar hyd ffyrdd yn Sir Ddinbych ar gost o £92,000, o'i gymharu â £162,000 y flwyddyn gynt pan ymgymeryd â pheth o'r gwaith yn fewnol. Gyda'r tendr yn ddilys hyd 2015, argymhellodd yr adroddiad gadw at y cytundeb presennol.

Awgrymodd y Cynghorydd R.T. Hughes y gallai llogi peiriannau ac ymgymryd â pheth o'r rhaglen lladd gwair yn fewnol, gyflwyno cyfle i wneud arbedion. Dangosodd RhA:RhRh y gall hi brofi'n anodd caffael peiriannau i'w llogi yn ystod y tymor torri a bod y gwir arbedion wedi eu darganfod trwy osod y gwaith i gontractwyr allanol.

Cofrestrodd y Cynghorydd R.L. Freeley ei chefnogaeth i ystyriaeth ecolegol y 'toriad Bioamrywiaeth', ond cydnabu mai diogelwch ar y ffyrdd oedd y flaenoriaeth.

Awgrymodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau y dylid cyhoeddi cynllun ar gyfer torri ar hyd ffyrdd fel bo cymunedau'n ymwybodol o unrhyw amhariadau posib. Fe gafodd yr amserlen gwaith ffordd dderbyniad da gan y cyhoedd ac fe'i enwyd fel esiampl effeithiol i'w dilyn. Fe gytunodd RhA:RhRh y gellid gweithredu hyn.

Yn dilyn trafodaeth fanwl, fe gynigiodd y Cadeirydd y dylid gweithredu cyfuniad o'r ddau opsiwn. Byddai hyn yn cynnwys dau doriad llawn y flwyddyn ar draws y Sir ac eithrio manau sy'n dod o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), a fyddai'n derbyn i gychwyn 'doriad Bioamrywiaeth' ar yr holl ffyrdd a dybir yn ddiogel i dderbyn 'toriad Bioamrywiaeth', a'i ddilyn gan un toriad llawn. Fe gefnogodd y Pwyllgor y dull yma ac fe:

BENDERFYNWYD - *fod y Pwyllgor, wedi ystyried y cynigion ar gyfer lladd gwair ymylon ffyrdd, yn argymhell*

a) gweithredu Opsiwn 1 is implemented yn yr AHNE ar holl lwybrau a dybir yn ddiogel ar gyfer toriad Bioamrywiaeth ac y gweithredir Opsiwn 2 ar draws gweddill ffyrdd y Sir.

b) cadw'r trefniant presennol o waith wedi'i osod allan i gontractwyr, yn ddibynnol ar ymgymryd â mesurau monitro cymhwyster ac ansawdd; a

c) chyhoeddi amserlen o gynlluniau'r lladd gwair a drefnwyd a'i ddsbarthu i gynghorau tref a chymuned a Grwpiau Ardal Aelod (Member Area Groups).

9. RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad yn dynodi ystyriaethau trefniadau ar gyfer Rhaglen Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor a glychredwyd cyn y cyfarfod.

Fe atgoffwyd aelodau'r pwyllgor y trefnwyd gweithdy ar 'Cynllun a Strategaeth Gweithredol Cefnogi Pobl 2012-13' ar Chwefror 22ain., o flaen ystyriaeth y Pwyllgor o'r adroddiad ar Fawrth 1^{af}.

Fe hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau wedi gwneud cais am i elfen ychwanegol gael ei chynnwys yn yr eitem a drefnwyd eisoes ar 'Arian a Ddyrannwyd i Grwpiau Ardal Aelod ac Ariannu Cymunedol i'r Dyfodol' ar Fawrth 1af., sef ar Gronfa Gwaddol Cymunedol arfaethedig. Fe gymeradwywyd y cais gan y Pwyllgor.

Fe dynnodd y Cydlynnydd Craffu sylw at nifer o eitemau a restrwyd fel 'materion i ddod' heb ddyddiad penodol ar gyfer ystyriaeth. Fe rybuddiwyd y Pwyllgor y rhagwelir y byddai angen i'r materion hyn gael eu cwmpasu cyn sefydlu'r Cyngor newydd neu fe allent nhw fynd heb eu craffu. Fe awgrymodd y Cadeirydd y gellid gosod Rhaglen Waith ar fynd ar gyfer y Pwyllgor Craffu Cymunedau sydd i olynu yn dilyn yr etholiad ym mis Mai ac er na fynnai gyfyngu ar yr hyn y byddai'r Pwyllgor yn craffu arno yn y dyfodol, fe all helpu i sicrhau na fethir materion perthnasol.

Fe atgoffwyd y Pwyllgor am gynlluniau i helpu hwyluso rhaglennu mwy cyfleus o eitemau addysg, a oedd yn peri rheidrwydd i Aelodau Cyfetholedig eistedd ar Bwyllgorau Craffu. Roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (GCIGC) wedi penderfynu yn eu cyfarfod ar Ionawr 5^{ed}, fod yr eitem ar Ddarpariaeth Cerdd o fewn Ysgolion, a fwriadwyd ar gyfer ystyriaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar Ebrill 12^{fed}, bellach wedi'i ailbennu i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer ystyriaeth yn eu cyfarfod ar Ebrill 19^{eg}. Bwriadwyd hyn fel defnydd mwy effeithiol o amser yr Aelodau Cyfetholedig.

Fe dderbyniodd GCIGC gais gan aelod o'r cyhoedd i graffu ar bolisi'r Cyngor ar gael gwared ag adeiladau ac fe ailbennwyd y mater i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau. Fe gytunwyd na fyddai gan y Pwyllgor yr amser i ystyried y mater hwn cyn yr Etholiad ac y dylid ychwanegu'r eitem at restr 'eitemau i ddod', i'w hailbennu'n briodol pan ddychwelai'r Cyngor newydd ym mis Mai.

Fe hysbyswyd y Pwyllgor hefyd am ohiriad y cyfarfod arbennig i drafod y cynigion a ddeilliodd o Adolygiadau'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a fwrriadwyd ar gyfer mis Chwefror. Roedd canlyniadau'r cyfarfodydd yn hwyr ac felly fe drefnwyd cyfarfod arbennig gyda dyddiad dros dro ym mis Gorffennaf.

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod Gweithgor Safle Carafanau Siroedd Conwy a Dinbych, a fynychwyd gan y Cynghorydd S.Thomas. Roedd nodyn atodol yn mynegi pryderon y Cynghorydd Thomas ynglyn â phroblem meddiannaeth blwyddyn gron o garafanau a'r straen roddai hyn ar wasanaethau lleol. Fe ysgogodd hyn y Cadeirydd i gydnabod yr angen i greu rhestr o holl aelodaeth pwyllgorau/gweithgorau Cynghorwyr.

PENDERFYNWYD - cymeradwyo, yn amodol i'r gwelliannau uchod, y Rhaglen Blaengynllun Gwaith fel ag y gosodwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 1:00y.p.

Eitem Rhif 5 ar y Rhaglen

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	1 Mawrth 2012
Swyddogion Arweiniol:	Pennaeth Priffyrdd a Seilwaith / Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio
Awdur yr Adroddiad:	Prif Swyddog Strategaeth Adfywio a Buddsoddi
Teitl:	Digwyddiad Beicio Etape Cymru

1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Craffu ar y trefniadau a'r strategaeth gyfathrebu ar gyfer digwyddiad 2011, a'r manteision a gafwyd gan gymunedau lleol/golledion a ddiroddwyd gan fusnesau lleol o ganlyniad i ddigwyddiad 2011.

2. Pam cyflwyno'r adroddiad?

Ystyried adolygiad gan y Prif Swyddog Strategaeth Adfywio a Buddsoddi sy'n rhoi manylion y trefniadau ar gyfer digwyddiad 2011 Etape Cymru, a'r effaith a gafodd ar y gymuned leol, a gofyn am sylwadau'r Pwyllgor er mwyn cynorthwyo o ran gwella strategaethau cynllunio a chyfathrebu ar gyfer unrhyw ddigwyddiad tebyg yn y dyfodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ac yn gwneud sylwadau ar y trefniadau gwell sydd i'w gweithredu ar gyfer digwyddiadau mawrion sy'n cau ffyrdd, megis Etape Cymru, gan gynnwys eu strategaethau cyfathrebu, i sicrhau bod cymunedau lleol yn cael y manteision mwyaf ac yn dioddef yr amhariad / golledion lleiaf o ddigwyddiadau o'r fath.

4. Manylion yr adroddiad

Cysylltwyd â Chyngor Sir Ddinbych gan K-Extreme, trefnydd digwyddiad beicio a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mewn perthynas â digwyddiad beicio 'ffyrdd caeëdig' yn digwydd ar ddydd Sul 9 Hydref 2011. Cychwynnodd y daith yn Wrecsam ac roedd 65 milltir o'r llwybr yn mynd trwy Sir Ddinbych, yn arddangos cefn gwlad beicio gwych y sir. Roedd y gynulleidfa darged ar gyfer y digwyddiad yn farchnad gymharol anghyffwrdd. Gan ddefnyddio methodoleg Llywodraeth Cymru ar gyfer asesu digwyddiadau mawrion, amcanestynnwyd bod effaith economaidd y digwyddiad ar ardal Wrecsam/Llangollen yn rhyw £47,500 gydag ychydig dros 1000 o gyfranogwyr, sy'n rhesymol ar gyfer digwyddiad cyntaf.

Yn anuniongyrchol, cafwyd effaith economaidd fwy, ac efallai y bydd yn parhau, o'r adroddiadau yn y cyfryngau rhanbarthol a chenedlaethol a gynhyrchwyd gan y digwyddiad hwn.

Mae'r Grŵp Ymgynghorol ar Ddiogelwch (Gwasanaethau Argyfwng / Priffyrdd / yr Heddlu ar y cyd) yn hapus cymeradwyo digwyddiad arall o'r un natur yn defnyddio'r un llwybr neu lwybr tebyg cyn belled â bod materion rheoli traffig a threfnu pobl yn cael eu trin, yn unol â'r sesiwn dad-friffio. Dylid cynhyrchu cynllun rheoli digwyddiad gan y trefnwyr newydd yn amlygu'r cynllun ar gyfer ymgynghori, cyfathrebu a rheoli traffig gyda chysylltiad rheolaidd â swyddogion Cynghorau Wrecsam a Sir Ddinbych a'r Grŵp Ymgynghorol ehangach ar Ddiogelwch trwy gydol y digwyddiad.

Gan edrych i'r dyfodol, mae cais wedi ei wneud i Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gan drefnwyr newydd Etape Cymru 2012 i'w gynnal yn yr un ardal ar ddydd Sul 9 Medi. Mae'r trefnwyr wedi cael un cyfarfod gyda Phriffyrdd, Adfywio a Rheolwr Prosiect Canolfan Ragoriaeth Beicio, i adolygu digwyddiad 2011 ac maent wedi derbyn argymhellion y Grŵp Ymgynghorol ar Ddiogelwch. Mae drafft cyntaf cynllun cyfathrebu ar gyfer Etape Cymru 2012 ynghlwm (atodiad 1) ar gyfer sylwadau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at Flaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Sir Ddinbych yn gyrchfan o safon ar gyfer beicio, nad yw mewn gwirionedd wedi ei darganfod eto, ac mae cyfle mawr i fanteisio'n economaidd o'r twf a welwyd yn y sector twristiaeth gweithgareddau. Mae adfywio'n un o flaenoriaethau corfforaethol y cyngor.

Mae rhannau arwyddocaol o Sir Ddinbych yn ddiweddar wedi eu dynodi'n Ganolfan Ragoriaeth Feicio Gogledd Cymru, gyda'r nod o *greu ardal a gydnabyddir yn genedlaethol fel cyrchfan trwy gydol y flwyddyn ar gyfer beicio ar ac oddi ar y ffordd a gweithgareddau awyr agored i bawb gyda golygfeydd eithriadol a gwrthgyferbyniol.*

Mae prosiect Canolfan Ragoriaeth Feicio Gogledd Cymru yn rhan o weledigaeth Visit Wales i greu ardaloedd twristiaeth rhagorol trwy raglen fuddsoddi arwyddocaol a ariennir gan y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn bartner arweiniol ar gyfer prosiect Canolfan Ragoriaeth Feicio Gogledd Cymru, sy'n bartneriaeth aroesol gyhoeddus/breifafat ar draws Conwy a Sir Ddinbych.

Mae Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn ymroddedig i egwyddorion Rheoli Cyrchfannau, a gaiff eu gyrru gan y Strategeth Dwristiaeth ar gyfer Gogledd Cymru, lle mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys datblygu digwyddiadau mawrion ac atyniadau a gweithgareddau awyr agored.

6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio gwasanaethau eraill?

Nid oedd unrhyw gyfraniad ariannol i'r digwyddiad gan Gyngor Sir Ddinbych.

Amser staff a ddarparwyd i Briffyrdd, Adfywio a phrosiect Canolfan Ragoriaeth Feicio i gefnogi gwaith cynllunio'r digwyddiad gan y trefnwyr. Nodyn: Cyllideb prosiect Canolfan Ragoriaeth Feicio, a arweinir gan Gyngor Sir Ddinbych (ffynonellau Ewropeaidd ac eraill) a ariannodd cost llythyrau gwybodaeth i drigolion a busnesau, yn ur un modd ag y mae wedi cefnogi digwyddiadau beicio eraill.

7. Pa ymgynghori a fu?

Ymgwymerwyd â gwaith ymgynghori ar gau ffyrdd gan y trefnydd yn uniongyrchol, gydag arweiniad gan swyddogion Cyngor Sir Ddinbych:

- Anfonwyd llythyrau at aelwydydd a busnesau yn yr ardaloedd a effeithiwyd ar 3 Mai 2011 a derbyniwyd ymatebion gan K-Extreme, a ddeliodd â hwy.
- Hysbysiadau Cyhoeddus yn y Wrexham Leader a'r Denbighshire Free Press
- Llythyrau wedi eu hanfon gan y trefnydd ar 9 Mai at gynghorau tref a chymuned a chynghorwyr sir ar hyd y llwybr – rhai trwy ebost, eraill trwy'r post
- Datganiad i'r wasg i'r cyfryngau lleol
- Cysylltodd clerc Cyngor Cymuned Llandysilio ar 18 Gorffennaf i ddweud nad oedd wedi cael cyfle i wneud sylwadau. Ail-anfonwyd y llythyr ac estynnwyd y cyfnod amser i ganiatáu cyflwyno sylwadau. O ganlyniad i'r cyfnod ymgynghori hwy, cynhaliwyd cyfarfod rhwng y trefnydd a Chadeirydd a Chlerc Cyngor Cymuned Llandysilio, y Cynghorydd Rhys Hughes a busnes lleol; hefyd yn bresennol oedd dau o swyddogion Cyngor Sir Ddinbych.
- O fewn Cyngor Sir Ddinbych – cafwyd ymgynghori a chyfranogiad gyda'r adrannau canlynol: Priffyrdd, Cludiant Cyhoeddus, Gwarchod y Cyhoedd, Iechyd a Diogelwch, Cefn Gwlad, Prosiect Canolfan Ragoriaeth Feicio, Adfywio a Thwristiaeth, y Prif Weithredwr, Cyfathrebu Corfforaethol, tîm Cyfreithiol ac Aelodau Arweiniol Adfywio a Phriffyrdd.
- Mae Heddlu Gogledd Cymru a gwasanaethau argyfwng eraill wedi chwarae rhan lawn, ac mae cyd-Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch Wrecsam/Sir Ddinbych wedi cyfarfod i oruchwylio trefniadau rheoli traffig, cludiant a cherddwyr ar gyfer y digwyddiad hwn

- Cyfarfu trefnydd y digwyddiad gyda busnsau ymlaen llaw i geisio eu cael i gymryd rhan yn y gigwyddiad. Roedd busnesau lleol ar y ffyrdd a oedd yn cael eu cau dros dro hefyd yn cael eu hysbysebu ar wefan y digwyddiad ac mewn hysbyseb yn y wasg leol.

O ganlyniad i'r adborth o'r ymgynghoriad:

- Ystyriwyd nifer o opsiynau ar gyfer y llwybr, gyda llwybrau amgen yn cael eu trefnu lle'r oedd angen.
- Arweiniodd trafodaethau gyda'r tîm Cludiant Teithwyr at wyro'r llwybrau bysus ryw ychydig, gan sicrhau nad oedd ymyrraeth i'r amserlen
- Galwodd clerc Cyngor Cymuned Llandysilio am gyfarfod gyda threfnydd y digwyddiad, pan drafodwyd pryderon busnesau a thrigolion lleol. Rhoddwyd sicrhau y byddai arwyddion yn rhybuddio ynglŷn ag amserau cau'r ffyrdd yn cael eu rhoi allan rhyw bythefnos cyn y digwyddiad ac y byddai llythyrau at drigolion a busnesau, gydag awgrym o'r amserau cau, hefyd yn cael eu hanfon rhyw bythefnos cyn y digwyddiad.
- Gweithiodd Neuadd Gymunedol Carrog gyda'r digwyddiad trwy gynnig cyfleusterau toiled a lluniaeth ac annog gwylwyr. Cafwyd adborth gadarnhaol iawn ers y digwyddiad.
- Defnyddiodd trigolion Llandegla a Brynegwlys y digwyddiad fel achos codi arian ar gyfer Eisteddfod Genedaethol 2013 trwy werthu lluniaeth i'r gwylwyr.
- Defnyddiwyd y Ponderosa Café, ar Fwlch yr Oernant fel lleoliad i lansio'r digwyddiad i'r cyfryngau, a thra rydym yn deall bod rhannau o'r busnes wedi eu heffeithio'n megyddol ar y dydd, ymddangosodd bod y caffi yn brysurach nag a fyddai wedi bod fel arall ar Sul gwlyb ym mis Hydref.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw gyfraniad ariannol i'r digwyddiad hwn.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?

Risg i enw da, gan drigolion anfodlon a busnesau a effeithiwyd gan gau'r ffyrdd dros dro ar 9 Hydref 2011. Caiff y risg ei rheoli trwy atgoffa'r trigolion a'r busnesau ynglŷn â'r cynlluniau terfynol i gau ffyrdd i ganiatáu iddynt wneud cynlluniau teithio amgen os oes angen.

10. Pŵer i gymryd y Penderfyniad

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (ar gyfer hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal awdurdod lleol)

Erthygl 6 Cyfansoddiad y Cyngor

Swyddog Cyswllt:

Prif Swyddog Strategaeth Adfywio a Buddoddi, Ffôn/Tel: 01824 706707

Amserlen Gyfathrebu ar gyfer Etape Cymru 2012

Chwefror

- Cymryd rhan i benderfynu ar lwybr terfynol

Mawrth

- Cadarnhau'r llwybr a'r map (yn cynnwys amserau)
- Cymryd rhan i gysylltu â holl gynghorau plwyf a chymuned, ddiwedd y mis i'w hysbysu o'r digwyddiad a chau ffyrdd (gyda chymorth Wrecsam a Sir Ddinbych gyda rhestr gyswllt gywir)
- Cymryd rhan i gysylltu â holl fusnesau ac eglwysi a effeithir gan gau'r ffyrdd

Ebrill

- Cymryd rhan i drafod ymhellach gyda chynghorau cymuned os oes angen
- Rhoi hysbysiadau yn y wasg leol i hysbysu pobl o'r digwyddiad (gyda chymorth staff cyswllt / adran y wasg yn y cyngor)
- Llythyr drafft i drigolion i'w anfon i bob cartref ar y llwybr (i'w gadarnhau)
- Cymryd rhan i ddodi posteri gwybodaeth mewn lleoliadau allweddol ar y llwybr

Mai

- Cymryd rhan i gysylltu ymhellach gyda holl fusnesau a thrigolion sydd â phryderon
- Cymryd rhan i gysylltu â'r holl asiantaethau a all gael eu heffeithio gan gau'r ffyrdd (gofalwyr, doctoriaid ar alwad, cartrefi nyrsio ac ati)

Mehefin

- Cyfathrebu parhaus gyda'r holl bartïon perthnasol

Gorffennaf

- Cyfathrebu parhaus gyda'r holl bartïon perthnasol

Awst

- Arwyddion rhybuddio ymlaen llaw yn cael ei gosod o gwmpas y llwybr gan JT&M (bythefnos cyn dyddiad y digwyddiad)

Medi

- Arwyddion rhybuddio ymlaen llaw fel uchod
- Dodi conau ar holl ffyrdd ar y llwybr gyda rhybudd yn hysbysu trigolion bod y ffordd yn cau (noson 8fed Medi) i'w gadarnhau
- Cynlluniau gwro ac arwyddion i'w gosod (ar fore'r digwyddiad)

- 9fed Medi – gorfodi cau'r ffyrdd (7am ymlaen)

Adroddiad i:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	1 Mawrth 2012
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Awduron yr Adroddiad:	Rheolwr Adfywio a Datblygu Morol /Rheolwr Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen
Teitl:	Ffioedd a Thaliadau Angorfeydd Harbwr y Foryd

1. Beth yw testun yr adroddiad?

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cyfres o daliadau yn Harbwr y Foryd mewn perthynas ag angori cychod y sawl sy'n defnyddio'r Harbwr. 1 Ebrill 2012 yw'r dyddiad a argymhellir ar gyfer gweithredu'r taliadau newydd.
- 1.2 Credir bod gweithredu'r taliadau priodol i ddefnyddio cyfleusterau Harbwr Foryd yn elfen bwysig yn natblygiad achos busnes dilys i'r ardal; bydd yn darparu ar gyfer rheolaeth yr Harbwr i'r dyfodol a'i allu i gyfrannu'n effeithiol at y gymynrodd sy'n ofynnol o Raglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen.
- 1.3 Os am sicrhau cyfleuster harbwr cynaliadwy, cydnabyddir bod angen cynhyrchu incwm i gyfrannu ar y lefel uchaf ymarferol tuag at ei gostau gweithredu a'i gostau cynnal yn y tymor hir.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

- 2.1 Mae'n briodol bod defnyddiwr sy'n elwa o gyfleusterau'r Harbwr yn cyfrannu at gostau cynnal a chadw parhaus y cyfleusterau hynny.
- 2.2 I geisio cefnogaeth Archwilio i weithredu polisi codi taliadau am ddefnyddio'r angorfeydd a'r cyfleusterau morol yn Harbwr y Foryd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Argymhellir:
 - 3.1.1 Y dylid cymeradwyo bod y gyfres o daliadau sydd o fewn yr adroddiad hwn yn cael ei gweithredu ar 1 Ebrill 2012.

- 3.1.2 Y dylid rhoi disgownt o 50% i'r holl daliadau i'r flwyddyn sydd i ddod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2012, gan fod gwaith datblygu yn digwydd o fewn yr harbwr.
- 3.1.3 Y dylid adolygu maint y disgownt yn flynyddol gan ystyried galw'r farchnad.
- 3.1.4 Y dylai cyfraddau lleol fod yn gymwys i Fae Cinmel a Thowyn (wardiau 12 & 13 yng Nghyngor Sir Bwrdeistref Conwy.)

4. Manylion yr Adroddiad.

- 4.1 Am sawl blwyddyn, mae angorfeydd wedi'u rhoi yn yr harbwr heb awdurdod, a heb roi llawer o ystyriaeth i ddefnyddio offer cywir na gofynion lechyd a Diogelwch; o ganlyniad, mae offer ansafonol yn cael ei ddefnyddio mewn sawl achos.
- 4.2 Yn 2010, penderfynodd Cyngor Sir Ddinbych y byddai'n adnewyddu tua 50% (41) o'r angorfeydd gyda'i stoc angorfeydd ei hunan fel rhan gyntaf y rhaglen adnewyddu angorfeydd, gan adael tua 50% o'r hen angorfeydd yn eu lle.
- 4.3 Er mwyn rheoli'r cyfleusterau angori yn Foryd, mae'r trefniadau angori wedi'u rhannu'n ddwy adran:
 - 4.3.1 Angorfeydd ym mherchnogaeth Cyngor Sir Ddinbych; dyma angorfeydd a gymerodd le adran orllewinol yr hen stoc angori yn 2010. Bydd yr Awdurdod yn cynnal yr angorfeydd hyn ac yn eu trwyddedu i ddefnyddwyr ar sail flynyddol.
 - 4.3.2 Angorfeydd cyfredol heb eu hawdurdodi yn y dwyrain, i'w cynnal gan y defnyddiwr dan drwydded o'r Awdurdod.
- 4.4 *Angorfeydd ym Mherchnogaeth Sir Ddinbych*
 - 4.4.1 Mae cam cyntaf y rhaglen adnewyddu angorfeydd wedi'i gwblhau gan ddarparu 41 o angorfeydd. Mae'r angorfeydd hyn wedi'u darparu i bwynt y boi angori. Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ddinbych fydd gwasanaethu, archwilio ac adnewyddu'r offer hwn.
 - 4.4.2 Cyfrifoldeb perchennog y cwch fydd y dull o gysylltu'r cwch i'r boi. Bydd yr Awdurdod yn darparu manyleb i'r modd cysylltu, ond cyfrifoldeb y sawl sy'n defnyddio'r angorfa fydd darparu a chynnal y strop.
 - 4.4.3 Dangosir y taliadau a gynigir i ddefnyddio'r angorfeydd hyn yn adran 5.2 o'r adroddiad hwn, ac fe'u cynigir o ystyried y taliadau a godir yng Nghonwy, sy'n cynnig cyfleusterau angori tebyg, ond

fe'u cynigir ar lefel is i adlewyrchu ystyriaethau marchnad mewn perthynas â Harbwr y Foryd.

4.5 Angorfeydd cyfredol heb eu hawdurdodi

4.5.1 Yn rhan ddwyreiniol yr harbwr, mae'r angorfeydd cyfredol heb eu hawdurdodi yn dal i gael eu darparu gan y defnyddwyr eu hunain. Fel mesur interim, a hyd nes bod y prosiectau sy'n gysylltiedig â'r harbwr wedi'u cwblhau ac arian wedi'i ganfod ar gyfer gwaith adnewyddu mwy o angorfeydd, y bwriad yw ffurfioli'r trefniadau a chyflwyno strwythur rheoli priodol i sicrhau bod yr offer angori yn cyflawni manylebau priodol i'r cychod sy'n eu defnyddio.

4.5.2 Yn ôl y trefniadau interim a gynigir, bydd yn rhaid i holl bobl â diddordeb yn y maes hwn gofrestru eu hangorfeydd gyda'r Sir, sicrhau bod eu hoffer angori yn cyflawni manylebau a ddarparir gan yr Awdurdod, cynnal archwiliadau rheolaidd o'r offer angori gan syrfëwr awdurdodedig a sicrhau bod eu cychod a'u hoffer wedi'i yswirio'n briodol. Bydd y Swyddog Morol yn nodi ble ddylid lleoli'r angorfa ac yn cyflwyno cytundeb blynyddol i'r lle angori.

4.5.3 Dangosir y taliadau a gynigir i ddefnyddio'r angorfeydd hyn yn adran 5.3 yr adroddiad hwn, ac fe'u cynigir mewn ystyriaeth o'r taliadau a godir yn Llandrillo yn Rhos.

4.6 Tollau Harbwr

4.6.1 Yn ogystal â'r taliadau angori a gynigir ac a ddangosir yn yr adroddiad, credir y dylai'r holl gychod sy'n defnyddio'r Harbwr gyfrannu at y costau sy'n gysylltiedig â'i rheolaeth gyffredinol, a chynnal cyfleusterau di-angori fel ceiau, llithrfeydd, pontydd cychod, mannau glanio, a goleuadau a nodau mordwyo, trwy dalu Tollau Harbwr. Dangosir y cyfraddau a gynigir i'r taliadau hyn yn adran 5.1 o'r adroddiad hwn.

4.7 Ymwelwyr

4.7.1 Dylid codi tâl ar gychod sy'n ymweld ag sy'n defnyddio'r Harbwr a'i gyfleusterau (cychod sydd ddim yn angori yma). Dangosir y cyfraddau a gynigir i'r categori hwn o ddefnyddwyr, sy'n cynnwys Tollau Harbwr yn adran 5.4 o'r adroddiad hwn.

5. **Ffioedd a Thaliadau (mae'r holl ffioedd a thaliadau yn cynnwys TAW)**

5.1 **Tollau Harbwr**

Mae'n rhaid i holl gychod (ac eithrio cychod sy'n dod o dan daliadau ymwelwyr) sy'n gweithredu allan o Harbwr y Foryd dalu Tollau Harbwr. Bydd hyn yn ychwanegol at y tâl angori.

Bydd y Tollau Harbwr yn seiliedig ar fand maint fesul angorfa yn hytrach na thâl y metr.

Cychod hyd at 8metr	£40.00 y/flwyddyn
Cychod 8.01metr i 10metr	£60.00 y/flwyddyn
Cychod 10.01metr i 12metr	£80.00 y/flwyddyn
Cychod dros 12metr	£100.00 y/flwyddyn

5.2 **Ffioedd Angori**

Bydd **angorfeydd a ddarperir gan Gyngor Sir Ddinbych** yn talu fesul angorfa, felly'r taliadau a gynigir fydd:

<i>Preswlydd Cyngor Sir Ddinbych</i>		<i>Heb fod yn Breswlydd Cyngor Sir Ddinbych (DCC + 20%)</i>
angorfa 8 metr	£300 y flwyddyn	£360.00 y flwyddyn
angorfa 10 metr	£375 y flwyddyn	£450.00 y flwyddyn
angorfa 12 metr	£450 y flwyddyn	£540.00 y flwyddyn

Angorfeydd ochr y môr o'r Bont Beiciau/Cerddwyr newydd.
Yr holl angorfeydd i fod ar y gyfradd 12 metr.

5.3 **Perchennog y Cwch yn darparu angorfa** (tâl i'w dalu am y cytundeb i osod angorfa ar dir Cyngor Sir Ddinbych)

Preswlydd Cyngor Sir Ddinbych
£18.75 y metr y flwyddyn

Heb fod yn Breswlydd Cyngor Sir Ddinbych (DCC + 20%)
£22.50 y metr y flwyddyn

5.3.1 **Cyfraddau Ymwelwyr (Cyfraddau ymwelwyr yn cynnwys Tollau Harbwr)**

1 – 7 Diwrnod Cynhwysol

Y Noson 8m a llai LOA £10.00 y noson

Ychwanegu £1.50 y metr dros 8m (uchafswm tâl £20.50 y noson)

8 Days and Over

Y Noson 8m a llai £7.00 y noson

Ychwanegu £1.05 y metr dros 8m (uchafswm tâl £14.35 y noson)

6. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

6.1 Yr ailddatblygiadau o fewn ardal Harbwr y Foryd gan gynnwys y cei newydd, ardal storio cychod, llithrfa newydd, harbwr diogel, pont gerdded/beiciau newydd, stoc angori newydd ac unedau harbwr. Bydd

y datblygiadau hyn yn cyfrannu tuag at y flaenoriaeth gorfforaethol o adfywio ac adfywio Rhyl.

- 6.2 Bydd y ffioedd a'r taliadau a gynigir yn cyfrannu tuag at sicrhau bod yr harbwr yn gynaliadwy a sicrhau hefyd bod modd darparu'r lefel o reolaeth ac ariannu a fydd yn cynnal gwasanaeth o safon uchel yn y dyfodol.
- 6.3 Bydd y datblygiadau a'r trefniadau rheoli, gyda'r polisi codi tâl yn rhan hanfodol, yn cyfrannu at ddatblygiad cynllun Y Rhyl yn Symud Ymlaen.

7. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 7.1 Bydd gweithredu'r strwythur codi tâl hwn yn lleihau effaith ariannol negyddol y cyfleuster harbwr ar y Cyngor ac yn cyfrannu'r sylweddol at gynnaladwyedd y gwasanaeth a'r cyfleusterau.
- 7.2 Os na dderbynnir strwythur codi tâl, bydd y costau rheoli a chynnal a chadw parhaus yn parhau i syrthio ar yr Awdurdod, gyda phrin dim adnoddau penodol i ymdrin â'r gwariant.

8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Mae'r polisi codi tâl yn ffurfio rhan allweddol o'r achos busnes i ail-ddatblygu a gwella'r cyfleusterau yn yr harbwr.

9. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

- 9.1 Yn y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 19 Ionawr 2012, gohiriwyd yr adroddiad gyda chais i'r swyddogion gynnal ymgynghoriadau pellach gyda'r grwpiau defnyddwyr priodol a Fforwm Harbwr y foryd. Mae'r ymgynghoriadau canlynol wedi digwydd ers hynny.

9.2 Grŵp Ardal Aelodau Rhyl (28/09/11)

Trafodwyd y cynigion codi tâl yn Grŵp Ardal Aelodau Rhyl ar 28/09/11. Roedd yr aelodau a oedd yn bresennol yn deall yr angen i weithredu taliadau ac roeddynt yn gyffredinol gefnogol i'r cynnig. Nododd tri aelod nad oeddynt yn gefnogol gan fod eu dehongliad o drafodaethau cynharach wedi sicrhau defnyddwyr yr harbwr na ddylid codi tâl hyd nes bod yr holl angorfeydd yn yr harbwr wedi'u cwblhau.

9.3 Clwb Hwyllo Rhyl (24/01/12)

- Derbyn y lefelau codi tâl gyda'r ychwanegiadau canlynol
- Ffioedd & Thaliadau i gynnwys TAW
- Cyfraddau disgownt i'r sawl sydd eisoes yn defnyddio angorfeydd sef 40% ar ffioedd angori a Thollau Harbwr
- Disgownt rhagarweiniol o 30% ar holl daliadau i ddefnyddwyr newydd

- Disgownt i gael ei adolygu'n flynyddol gyda chymdeithasau defnyddwyr a Fforwm yr Harbwr
- Ddim yn credu y gall Cyngor sir Ddinbych godi Tollau Harbwr heb Orchymyn Trwydded Harbwr

9.4 **Cymdeithas Pysgotwyr Rhyl / Cymdeithas Sgiperiaid Siartr Rhyl (25/01/12)**

Cynhaliwyd un cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r ddwy gymdeithas yn bresennol.

- Cymeradwyo trefniadau angori dwy haen - angorfeydd ym mherchnogaeth Cyngor Sir Ddinbych a rhai a ddarperir gan Berchnogion
<p>4.2.4.1 *NEW* Re 3.2 Actions for the Community Care & Older People funding portfolio 2011 – 2012, section 3.2.1 Older People (see above)</p> <p>Action 3.2.1.3: Review all existing Denbighshire County Council [sheltered housing] service users' support plans with the assistance of and alongside the Reablement service and</p> <p>Action 3.2.1.5: Share learning re the reablement approach to sheltered housing with Registered Social Landlords' wardens and support workers.</p> <p>In 2012-13, fund the recruitment of a full-time occupational therapist for one year to be based in DCC Sheltered Housing Services with the aim of consolidating and expanding the adoption and implementation of a reablement approach to sheltered housing.</p>	Capacity permitting	N/A
---	---------------------	-----

Section 5: Proposed Actions 2013 – 2014

5.1 Actions for the Community Safety & Homelessness funding portfolios 2013 – 2014

5.1.1 Redistribution		
Action 2013 - 2014	Finance	Baseline Outcomes
5.1.1.1 *NEW* Determine the long term Strategic Priority to Fund of all services in the light of a likely reduction in funding for Denbighshire resulting from the geographical redistribution of Supporting People funding across Wales.	Review existing funding	N/A
5.1.2 Domestic Abuse		
Action 2013 - 2014	Finance	Baseline Outcomes
5.1.2.1 Review Domestic Abuse floating support services in the light of findings from the possible new county wide service (see c above) & Denbighshire's "move on" framework to inform future strategic priority to fund (SPTF)	N/A (within existing Supporting People (SP) Team resources)	N/A
5.1.3 Ex Offenders		
Action 2013 - 2014	Finance	Baseline Outcomes
5.1.3.1 Implement the findings of a North Wales Supporting People Planning Group regional review of ex-offender services at a local level. This will consider provision for women ex-offenders.	Review existing services if required	N/A
5.1.4 Families		
Action 2013 – 2014	Finance	Baseline Outcomes
5.1.4.1 *NEW* Establish robust systemic links between Supporting People services for Families and Integrated Family Support Services at both strategic and operational levels.	N/A (within existing SP Team resources)	N/A
5.1.5 Young People		
Action 2013 - 2014	Finance	Baseline Outcomes

5.1.5.1 Continue to seek to develop a 24 hour staffed Young People project subject to securing appropriate accommodation.	Long term funding already allocated to secure a project for Denbigh and surrounding villages. Discussions are ongoing with a range of providers and this may be in a position to progress in the next 2-3 years.	N/A
5.1.5.2 Review the effectiveness of Y Dyfodol's new dispersed model of supported housing following embedding of the new service model.	N/A (within existing SP Team resources)	N/A
5.1.5.3 *NEW* In anticipation of the end of temporary recycled funding for the Nacro Symud Ymlaen 24Hour provision, to determine future service specification and revenue funding for the property formerly used by Y Dyfodol Phase 1 in partnership with the owners, Clwyd Alyn Housing Association. To manage and facilitate the transition to a new service and funding model e.g. as a jointly commissioned small assessment centre for young homeless people as described in the Denbighshire County Council Young People's Housing and Support Action Plan	Funded with Housing Services and Children and Family Services.	N/A

5.1.6 Substance Misuse (Homelessness Prevention and Community Safety)

Action 2013 - 2014	Finance	Baseline Outcomes
5.1.6.1 Implement the Regional SP Strategy for people with Substance Misuse needs when published.	Review existing services if required	N/A

5.2 Actions for the Community Care & Older People funding portfolio 2013 – 2014

5.2.1 Redistribution	Finance	Baseline Outcomes
Action 2013 - 2014	Review existing funding	N/A
5.2.1.1 *NEW* Determine the long term Strategic Priority to Fund of all services in the light of a likely reduction in funding for Denbighshire resulting from the geographical redistribution of Supporting People funding across Wales.		

5.2.2 Mental Health (Community Care)

Action 2013 - 2014	Finance	Baseline Outcomes
--------------------	---------	-------------------

<p>5.2.2.1 Continue to seek to develop a 24 hour staffed Mental Health project subject to securing appropriate accommodation. Utilise Telecare where possible and appropriate & tie service into the "Move-on" Framework</p>	Long term funding already allocated	N/A
<p>5.2.2.2 *NEW* To contribute to achieving the outcome detailed in Denbighshire's Big Plan to: <i>"provide effective preventative support services to vulnerable individuals and families, including those with mental health problems, to ensure their housing needs are met. People with mental health needs will be more effectively supported to live independently, in their own homes."</i></p>	Existing Resources	N/A

Eitem Agenda: 8

Adroddiad i:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	1 Mawrth 2012
Swyddog Arweiniol:	Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad
Awdur yr Adroddiad:	Swyddog Gwella Corfforaethol
Teitl:	Arolwg Trigolion Sir Ddinbych 2011

1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Cynhaliwyd ail Arolwg Trigolion Sir Ddinbych yn ystod haf y 2011 i ganfod pa mor fodlon, a beth yw canfyddiadau trigolion Sir Ddinbych, ynghylch nifer o faterion, o wasanaethau'r Cyngor i ganol trefi a datblygu blaenoriaethau corfforaethol newydd.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Cyflwyno gwybodaeth ynghylch Arolwg Trigolion Sir Ddinbych 2011 a hysbysu'r Aelodau ynghylch sut y bydd y Cyngor yn talu sylw i'r canfyddiadau yn ei gynlluniau gwasanaeth ac wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd 2012 - 16.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Pwyllgor:

3.1 yn ystyried canfyddiadau'r Arolwg Trigolion; ac

3.2 yn penderfynu a oes unrhyw feysydd penodol sy'n haeddu cael eu harchwilio ymhellach.

4. Manylion yr adroddiad

Anfonwyd yr arolwg at 6,000 o drigolion a chafwyd ymateb gan 38% (n=2,256), sydd yn is na'r ymateb i arolwg 2009 o 49%, ond sydd dal yn uchel iawn am arolwg trwy'r post. Roedd 9 cwestiwn yn fwy yn yr arolwg nag yn yr un blaenorol, gan gynnwys gofyn am farn y trigolion ynghylch canol eu tref leol a pha feysydd y maen nhw o'r farn ddylai ddod yn flaenoriaethau corfforaethol i'r cyngor.

Mae canfyddiadau'r Arolwg Trigolion yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan wasanaethau i ddatblygu'u Cynlluniau Gwasanaeth am 2012/ 13 ac ar gyfer talu sylw i feysydd arbennig o angen a nodwyd. Mae sylwadau'r trigolion hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu blaenoriaethau

corfforaethol newydd yn y Cynllun Corfforaethol 2012 – 16 ac wrth ddatblygu cynlluniau trefi.

Mae proffil oedran yr ymatebwyr yn tueddu fwy at y boblogaeth hŷn yn arolwg 2011 o gymharu â 2009, gyda 41% o'r ymatebwyr dros 65 mlwydd oed yn 2011 o gymharu â dim ond 22% yn 2009. Nododd Cyfrifiad 2001 fod 21% o'r boblogaeth dros 65 mlwydd oed ac mae amcangyfrifon canol blwyddyn dilynol wedi amcangyfrif cynnydd yn y nifer o bobl hŷn, er gan ddim ond ychydig y cant, fodd bynnag ceir data cywirach a chyfredol ar broffil oedran Sir Ddinbych pan fydd data Cyfrifiad 2011 yn cael ei rhyddhau.

Mae'r arolwg yn rhoi gwybodaeth ar fodlonrwydd a chanfyddiad, felly efallai nad yw'r holl wybodaeth sy'n benodol i wasanaeth yn ganlyniad i *brofiad uniongyrchol* person o wasanaeth. Fodd bynnag, dewisodd llawer o bobl beidio ag ateb yn yr achosion hynny, ac, o ran y rhai sydd wedi ateb, dylid cymryd bod eu barn yn seiliedig ar rywfaint o wybodaeth, ac felly ni ddylid anwybyddu'r wybodaeth a geir yn yr arolwg os nad yw'n cyd-fynd â'n rhagdybiaethau ni. Yn hytrach, fe ddylen edrych ar ein data lleol yn fanylach yn ogystal â siarad gyda Chynghorwyr a chymunedau i drafod y materion sydd wedi'u hamlygu.

Mae barn y trigolion ynghylch y Cyngor ar faterion allweddol, megis a yw'n gweithredu ar bryderon trigolion, a yw'n effeithiol ac yn cael ei redeg yn dda neu'n rhoi gwerth am arian, i gyd wedi gwella yn arolwg 2011 a chan cymaint ag 8% yn y categori olaf.

Roedd dros ddwy ran o dair o'r trigolion o'r farn fod gan eu hardal synnwyr cryf o gymuned, ar wahân i Brestatyn (54%) a'r Rhyl (36%) a chafodd y patrwm hwn ei ail adrodd yn yr ymatebion i a oedd pobl yn teimlo'n rhan o'u cymuned.

Roedd teimlad cryf o ddiogelwch yn ystod y dydd, gyda'r Rhyl yn cael y cytundeb lleiaf ar 93% (sy'n dal yn uchel). Yn y nos roedd dros 70% o drigolion ar draws Sir Ddinbych yn teimlo'n ddiogel, ac mor uchel â 92% yn Rhuthun a Dyffryn Dyfrdwy ond yn gostwng i 59% yn y Rhyl.

Roedd canfyddiadau pobl o rai'n defnyddio neu'n delio mewn cyffuriau yn dangos fod hyn yn fwy o broblem yn Nyffryn Dyfrdwy (65%, i fyny o 55% yn 2009) nag yn y Rhyl (53%, i fyny o 50% yn 2009), ac yn un mae mwy o bobl yn teimlo sy'n broblem yn 2011 nag yn 2009. Cafodd y patrwm hwn ei ail adrodd yn yr ymatebion i'r cwestiwn a yw 'pobl yn feddw a swllyd' yn broblem, gyda 62% yn cytuno yn Nyffryn Dyfrdwy o gymharu â 60% yn y Rhyl. Nid yw'r canlyniadau hyn o angenrheidrwydd, yn golygu fod hyn yn fwy o broblem mewn gwirionedd yn Nyffryn Dyfrdwy na'r Rhyl, ond mae'n dangos fod pobl yn teimlo'n fwy ymwybodol o bresenoldeb broblemau, un ai o ganlyniad i ychydig o ddigwyddiadau ynysig neu i gynnydd yn nifer y digwyddiadau. Mae'n dangos sut y mae'r arolwg yn amlygu 'mannau poeth', a all, gyda rhagor o ymchwiliad i ystadegau'r heddlu a diogelwch cymunedol, ein cynorthwyo i nodi a gweithredu ar unrhyw broblemau gwirioneddol.

Ystyrid ysbwriel yn broblem **fechan** gan bron iawn hanner y trigolion ar draws y sir (40% - 48%), sy'n gyson â chanlyniadau 2009. Ystyrid baeddu cŵn ychydig yn fwy o broblem (82%) nag yn 2009 (78%). Yn gyffredinol, ar draws y sir, roedd bron iawn yr un canran o bobl yn teimlo fod eu hardal wedi gwella, aros yr un fath neu wedi gwaethygu, ag yn 2009.

Roedd bodlonrwydd â gwasanaethau'n gyffredinol gwell nag yn 2009 gydag anfodlonrwydd yn gysylltiedig, fel arfer, â phroblem rydym eisoes yn ymwybodol ohoni, er enghraifft mae ychydig yn fwy o anfodlonrwydd ynghylch parc ailgylchu ac â'r gwasanaeth ailgylchu yn Nyffryn Dyfrdwy.

Gofynnodd yr arolwg nifer o gwestiynau ynghylch pa mor hawdd yw hi i drigolion ddefnyddio technoleg. Ychydig o wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd ynghylch hynny. Mae'r canlyniadau wedi dangos fod gan 78% o drigolion ar gyfartaledd ar draws y sir deledu digidol neu deledu lloeren, fod 66% â defnydd o gyfrifiadur neu liniadur, 22% ffôn clyfar, 4% ddyfais dabled ac nad oes gan 12% ddefnydd o unrhyw un o'r technolegau hyn. Bydd yr wybodaeth yma'n ein helpu i gyfathrebu'n effeithiol gyda'r cyhoedd yn ogystal â phenderfynu ar y ffordd orau o ddarparu rhai gwasanaethau.

Cafodd cyfartaledd o 10% o drigolion achos i gwyno yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag roedd dros ddwy ran o dair (70%) yn anfodlon gyda'r ffordd y cafodd y gŵyn ei thrin. Yn gyffredinol, doedd pobl ddim yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda mewn perthynas â gwasanaethau penodol a pholisi lleol (h.y. y Cynllun Datblygu Lleol) ond yn gyffredinol maen nhw'n hapus gyda'r wybodaeth rydym yn ei darparu ynghylch gwneud tasgau o ddydd i ddydd megis sut i dalu bil a chofrestru i bleidleisio. Yn gyffredinol roedd pobl yn fodlon gyda chyfeillgarwch y staff wrth gysylltu â'r cyngor (92%) ac yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith (96%) er bod rhywfaint o anfodlonrwydd gyda hyd yr amser mae'n cymryd i ymdrin ag ymholiad (21%), yr wybodaeth a roddwyd (20%) a chanlyniad terfynol eu hymholiad (21%).

Roedd trigolion o'r farn y dylai'r canlynol fod yn brif feysydd blaenoriaeth i'r Cynllun Corfforaethol nesaf (2012 – 16):

- Cadw cymunedau'n lân ac yn ddiogel (74%)
- Cefnogaeth i'r economi lleol a swyddi (70%)
- Ymateb i anghenion poblogaeth sy'n heneiddio tra'n denu a chadw pobl iau a theuluoedd (69%)

Roedd trigolion o'r farn hefyd mai rhoi cefnogaeth i bobl hŷn yn eu cartrefi yw'r maes sydd angen ei warchod fwyaf rhag arbedion yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

Er ei fod yn costio £22,000, mae'r arolwg yn dal yn ffordd cost effeithiol iawn o gasglu ystod eang o wybodaeth ynghylch canfyddiadau a bodlonrwydd trigolion. Fodd bynnag cydnabuwyd y dylai gwasanaethau arbenigol e.e. Oedolion a Gwasanaethau Busnes, gasglu data defnyddiwr gwasanaeth a fyddai'n rhoi gwybodaeth mwy dibynadwy ynghylch y gwasanaeth nag sydd yn yr Arolwg Trigolion. Mae pa mor aml y bydd yr Arolwg yn cael ei gynnal yn y dyfodol yn dal i gael ei drafod. Mae cynllun gweithredu'n cael ei baratoi o

weithgareddau gan wasanaethau i ymateb i'r problemau a nodwyd yn yr arolwg. Bydd yn cael ei ddefnyddio i ddangos i Swyddfa Archwilio Cymru fod y Cyngor wedi ymrwmo i gysylltu â chymunedau lleol ac i ymateb i'w pryderon.

Mae Crynodeb o'r adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor www.denbighshire.gov.uk/residentsurvey. Mae gwybodaeth benodol neu ddadansoddiad ar gael gan Eva Walters, Swyddog Gwella Corfforaethol eva.walters@denbighshire.gov.uk neu 01824 712676.

5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Arolwg Trigolion yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu'r Blaenoriaethau Corfforaethol drwy ofyn i drigolion pa feysydd thematig y mae'n nhw o'r farn y dylid cael eu blaenoriaethu o'r rhestr a roddir.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Cost unwaith ac am byth yr Arolwg Trigolion oedd £22,000 yn 2011 – 12.

7. Pa ymgynghori a wnaed?

Mae'r Arolwg yn ddull o gysylltu â thrigolion.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Amherthnasol

10. Yr Hawl i Benderfynu

Amherthnasol

Swyddog Cyswllt:

Swyddog Gwella Corfforaethol
Ffôn: 01824 712676

Rhif yr eitem ar yr agenda: 9

Adroddiad i'r: Pwyllgor Craffu Cymunedau

Dyddiad y Cyfarfod: 1 Mawrth 2012

Swyddog/Aelod Arwain: Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau

Awduron yr Adroddiad: y Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned; y Rheolwr Adfywio Strategol; a'r Pennaeth Cyllid ac Asedau

Teitl: Cyllid Cymunedol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Y cyllid sy'n cael ei ddyrannu i alluogi Grwpiau Ardal Aelod i gefnogi prosiectau â blaenoriaeth yn eu hardaloedd a chyllid ar gyfer prosiectau cymunedol yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gynigion i reoli nifer o gronfeydd ymddiriedolaeth mewn gwahanol fodd.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am adroddiad ar ddyrannu £50,000 i bob un o'r chwe Grŵp Ardal Aelod (GAA) ac i gynnwys yn benodol wybodaeth am

i. y meini prawf sy'n sail i ddyrannu'r arian a'r ffordd y defnyddir yr arian er budd y cymunedau, a

ii. y ffrydiau ariannol sydd ar gael am gyllid cymunedol y dyfodol (cyllid cyfalaf/refeniw/cynllun tref) gan gynnwys cyfleoedd arian cyfatebol drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru, Cist Gymunedol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC) ac unrhyw arian arall sydd ar gael.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ar ôl dadansoddi'r budd sy'n casglu i'r gymuned yn sgil prosiectau a gefnogir drwy'r dyraniad i'r Grwpiau Ardal Aelod.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Cefndir y dyraniad

- 4.1.1 Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, rhoir gwybod am sefyllfa'r gyllideb derfynol i'r Cabinet ac yna'r Cyngor llawn sy'n cymeradwyo pob dyraniad tanwariant neu orwariant a phob trosglwyddiad i/o gronfeydd wrth gefn a darpariaethau.
- 4.1.2 Ar ddiwedd 2010/11 roedd gan y Cyngor danwariant. Cynigiwyd defnyddio £300k o hwn i gefnogi un o flaenoriaethau'r Cyngor, sef agosáu at y gymuned. Cefnogwyd hyn yn y Cabinet ar 21 Mehefin ac fe'i cymeradwywyd ar 5 Gorffennaf. Cynigiwyd y gellid gwneud hyn drwy'r Grwpiau Ardal Aelod a ailgynnullwyd yn ddiweddar. Byddai hyn yn galluogi'r Grwpiau Ardal Aelod i gael yn uniongyrchol at gyllid i fynd i'r afael â materion yn eu hardal ac yn galluogi'r Cyngor i fynd i'r afael â materion lleol.
- 4.1.3 Cafodd yr holl Aelodau Etholedig wybod am y dyraniad i'r Grwpiau Ardal Aelod gyda nodyn cyfarwyddyd yn egluro'r egwyddorion a oedd yn sail i'r dyraniad, y ffordd y bydd y broses yn cael ei rheoli a'r amserlen debygol ar gyfer ei dosbarthu. Ynghlwm wrth y cyfarwyddyd oedd ffurflen cynnig prosiect i'w defnyddio gan yr Aelodau (Atodiad 1).
- 4.1.4 Rhoddwyd cyfarwyddyd pellach ym mhob cyfarfod Grŵp Ardal Aelod wedyn a bu'n eitem safonol ar yr agenda ers hynny.

4.2 Dosbarthu'r cyllid

- 4.2.1 Bu'r chwe Grŵp Ardal Aelod i gyd yn trafod y ffordd y byddent yn mynd ati i ddosbarthu'r cyllid ac, er bod y Swyddogion wedi amlygu'r canllawiau sy'n amodi lleiafswm gwariant o £10,000 i bob prosiect, cafodd rhai o'r Grwpiau anhawster yn cytuno prosiectau mawr a fyddai o'r un budd i bob ward/ardal ddaearyddol. Penderfynodd y chwe Grŵp wedyn ddyrannu yn y modd canlynol:

Dyffryn Dyfrdwy

Byddai'r £50,000 yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal rhwng Llangollen a Chorwen (gan gynnwys Cynwyd/Llandrillo-yn-Rhos).

Dinbych

Dyrannwyd y cyllid fesul ward.

Elwy

Dyrannwyd y cyllid fesul Aelod unigol.

Prestatyn

Dyrannwyd y cyllid i nifer o brosiectau mawr a fyddai o fudd i'r dref gyfan.

Y Rhyl

Dyrannwyd y cyllid fesul ward.

Rhuthun

Dyrannwyd i un neu ddau brosiect mawr a fyddai o fudd i'r dref a'i chefnwlad.

- 4.2.2 Mae'r Aelodau wedi defnyddio'r Ffurflen Cynnig Prosiect sydd wedi'i chyflwyno i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol i'w chymeradwyo gyda'r costiad priodol a chymeradwyaeth o ran Gwasanaethau.
- 4.2.3 Yn Atodiad 2, mae trosolwg ar y prosiectau a gyflwynwyd hyd yma. Rhagwelir y bydd yr holl gyllid hwn wedi'i ymrwymo cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. [Mae'r atodiad hwn wedi'i eithrio ar hyn o bryd o ddatgeliad cyhoeddus yn rhinwedd paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972].

4.3 Adolygu'r broses

- 4.3.1 Mae'n rhy gynnar gwerthuso'n gynhwysfawr yr effaith y mae'r prosiectau wedi'i chael ar y gymuned a hynny'n bennaf gan nad yw llawer o'r prosiectau wedi cael y cyllid ond ers rhyw fis. Er bod y budd yn amlwg i rai o'r cynlluniau a gyflwynwyd, h.y. cyfrifiaduron i ysgolion, mae angen dadansoddi eraill ymhellach, fel y taliadau gostyngedig am barcio ceir yng nghanol y dref, dros gyfnod sylweddol. Awgrymir felly fod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin/Gorffennaf gyda dadansoddiad manwl o'r budd sydd wedi cronni o bob prosiect.
- 4.3.2 O safbwynt gweinyddol, bu'r broses yn llafurus i'r Swyddogion yn arbennig pan oedd nifer o brosiectau wedi'u cyflwyno efallai mewn un ward yn unig.
- 4.3.3 Oherwydd cyfansoddiad daearyddol rhai o'r Grwpiau Ardal Aelod, nid yw'r cyfarwyddyd a roddwyd i ganolbwyntio ar ddau neu dri phrosiect mawr wedi'i fabwysiadu, ac mae hynny wedi arwain at brosiectau llai a fydd yn amlwg yn cael llai o effaith ar y gymuned.

4.4 Ffrydiau ariannol ar gyfer cyllid cymunedol yn y dyfodol

O ystyried y sefyllfa ariannol anodd sy'n wynebu'r Cyngor, nid yw'n debygol y bydd cyllid ar y lefel hon ar gael yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dechrau cymeradwyo Cynlluniau Tref ac mae wedi dyrannu cyllid sylweddol i gefnogi'r rhain. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn y dyfodol i gynnig y ffordd orau o gydlynu'r rhain â chyllid arall fel cyllid refeniw a chyfalaf cymunedol, cyllidebau adfywio ac arian cyfatebol.

4.5 Cyfleoedd arian cyfatebol

- 4.5.1 Yn wahanol i'r cynllun busnes blaenorol ar gyfer prosiectau wedi'u hariannu gan y Cynllun Datblygu Gwledig sy'n gwasanaethu Sir Ddinbych wledig, nid yw'r un cyfredol yn gwneud darpariaeth o gwbl ar gyfer grantiau cyfalaf i brosiectau cymunedol oherwydd ni chafodd y cais am Gronfa Allweddol Wledig bellach ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r cynllun nesaf yn dechrau ar 1 Ionawr 2014 a byddai'r rheoliadau arfaethedig fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn caniatáu defnyddio cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig i gefnogi prosiectau cymunedol. Y blaenoriaethau a gytunir yn lleol a'u derbynioldeb i Lywodraeth Cymru fyddai'n pennu a fyddai hyn yn golygu y byddai cyllid ar gael at y diben hwn yn Sir Ddinbych.
- 4.5.2 Mae gallu Cist Gymunedol DVSC i gefnogi prosiectau cymunedol yn gyfyngedig oherwydd dim ond grantiau bach hyd at £250 a ddarperir ganddi.
- 4.5.3 A'r cyfleusterau ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain yn cael eu cwblhau, dylai fod mwy o gyllid y Loteri ar gael i brosiectau mewn mannau eraill nag a fu yn y blynyddoedd diwethaf.
- 4.5.4 Mae Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP) Llywodraeth Cymru'n darparu grantiau am brosiectau cymunedol a dim ond i sefydliadau cymunedol y mae ar gael; nid yw awdurdodau lleol yn gallu gwneud ceisiadau i'r rhaglen hon.
- 4.5.5 Un o'r ffynonellau cyllid cynyddol ar gyfer prosiectau cymunedol yn Sir Ddinbych yw'r diwydiant gwynt. Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ynghylch trefniadau i dalu'r £750,000 o gyllid budd cymunedol y flwyddyn am 25 mlynedd o 2014 sy'n codi o fferm wynt ar y môr Gwynt y Môr ac mae trefniant tebyg wedi'i awgrymu ar gyfer fferm wynt ar y tir arfaethedig Clocaenog.

5. Cronfeydd Ymddiriedolaeth

- 5.1 Y Cyngor yw'r ymddiriedolwr ar gyfer nifer o gronfeydd a osodwyd naill ai gyda'r Cyngor neu gyda chyrrff a'i rhagflaenodd. Mae rhai o'r cronfeydd hyn yn dyddio o'r adeg cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Byddai'r cronfeydd yn cael eu rhoi'n gyffredinol at ddiben penodol neu i helpu preswylwyr ardal arbennig. O ystyried oedran rhai cronfeydd, nid ydynt mwyach yn ddigon o faint i gynhyrchu digon o incwm i'w ailddosbarthu, neu mae'r dogfennau gwreiddiol ar goll heb fod diben y gronfa'n glir rhagor.

Mae tua 55 o wahanol gronfeydd a chyfanswm gwerth y cronfeydd yw rhyw £268k ac maent yn cynhyrchu ychydig filoedd o bunnoedd o incwm bob blwyddyn ac ychydig iawn o hwn sy'n cael ei wario wedyn. Nid yw rhai o'r cronfeydd llai wedi'u defnyddio ers nifer o flynyddoedd.

Mae'n amlwg nad yw'r adnodd hwn yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol ac y gallai o bosibl fod o fudd i breswylwyr Sir Ddinbych petai'n cael ei reoli'n wahanol. Mae'r adroddiad drafft sydd ynghlwm yn Atodiad 3 yn cynnig sut

gellid defnyddio gwahanol fodel i reoli'r cronfeydd hyn a fyddai'n golygu bod modd cynhyrchu mwy o incwm a gwneud arian cyfatebol yn fwy tebygol. [Mae'r atodiad hwn wedi'i eithrio ar hyn o bryd o ddatgeliad cyhoeddus yn rhinwedd paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972].

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae dyrannu cyllid i alluogi'r Grwpiau Ardal Aelod i weithredu prosiectau sy'n flaenoriaeth i'w hardaloedd yn cynorthwyo'r Cyngor Sir i gyflawni ei nod strategol o "agosáu at y gymuned".

6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Cyfanswm y gost o ddarparu £50,000 i'w dyrannu gan bob un o'r chwe Grŵp Ardal Aelod oedd £300, 000.

7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Amherthnasol.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Heb ddull strategol y mae'r holl fuddgyfranogwyr wedi cytuno arno, mae perygl y bydd cyfleoedd yn cael eu colli i sicrhau y defnyddir yr arian cyfatebol sydd ar gael yn y ffordd orau er budd mwyaf cymunedau'r sir. Bydd datblygu cynlluniau tref a chymuned yn helpu i liniaru'r risg hwn.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor wneud unrhyw beth y mae'n ystyried ei fod yn debygol i hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned

Ffôn: 01824 70 6146

Dyrannu Cyllid yn y Gymuned i Grwpiau Ardal Aelod

Cyfarwyddyd ar gyfer Cynigion

Mae'r Cyngor wedi dyrannu £50k i bob un o'r Grwpiau Ardal Aelod. Diben y cyllid yw cefnogi un o flaenoriaethau'r Cyngor, sef 'Agosáu at y Gymuned'. Yn y ddogfen hon, mae cyfarwyddyd i'r aelodau ynghylch gwario'r cyllid hwnnw'n briodol.

Egwyddorion

- Dylai gefnogi prosiectau lleol
- Gellir ei ddefnyddio i roi grantiau i gyrff eraill, ei wario'n uniongyrchol ar brosiectau newydd, neu i gryfhau neu wella gwasanaethau presennol y Cyngor
- Gellir ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau refeniw neu gyfalaf ond ni all greu atebolrwydd parhaus am wariant gan y Cyngor
- Dylai prosiectau fod yn ddigon o faint i wneud effaith yn yr ardal leol – lleiafswm gwariant o £10k i bob prosiect
- Dylai prosiectau gael eu cefnogi gan dystiolaeth o'r angen amdanynt ac o'r budd / canlyniad a gyflawnant i'r gymuned leol
- Mae'n rhaid i brosiectau gael eu cytuno'n ffurfiol gan bob Grŵp Ardal Aelod. Ni all unrhyw aelod unigol ymrwymo gwariant. Os yw'n bosibl, dylid osgoi prosiectau lluosog ym mhob ward.

Proses

- Mae'n rhaid cwblhau Cynnig Prosiect ar gyfer pob cynnig.
- Mae'n rhaid i unrhyw brosiect gael ei gytuno gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn y Cyngor i sicrhau ei fod yn fforddiadwy ac yn ddichonadwy.
- Y Tîm Gweithredol Corfforaethol fydd yn cymeradwyo'r prosiectau yn y pen draw i sicrhau nad ydynt yn torri unrhyw reoliadau etc nac yn gwrthdaro ag unrhyw gynigion eraill. Mae hyn yn cynnig gwiriad annibynnol y gellir ei archwilio i sicrhau nad oes problemau o ran cywirdeb ac i sicrhau bod gwariant yn cael ei awdurdodi yn unol â'r cyfansoddiad.

Amserlen

- Mae'r cylch nesaf o gyfarfodydd Grŵp Ardal Aelod ym mis Hydref a thybir y bydd cynigion yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfodydd hyn, a phenderfyniadau'n cael eu gwneud naill ai yn y cyfarfodydd hyn neu'r cyfarfod canlynol yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Cynnig Prosiect Grŵp Ardal Aelod	
Beth yw enw'r prosiect?	
Faint fydd yn ei gostio?	
A oes unrhyw arian cyfatebol? Os Oes, nodwch y swm a'r ffynhonnell	
Yn eich barn chi, faint o amser y bydd ei angen i'w gyflenwi?	
Pwy fydd yn rheoli'r prosiect? (Adran o'r Cyngor, allanol etc)	
Beth fydd y prosiect yn ei wneud?	
Pam ydych chi'n credu bod y prosiect yn ofynnol? Pa dystiolaeth sydd gennych?	
Sut bydd y prosiect hwn yn dod â'r Cyngor yn agosach at y gymuned?	
Sut byddwch chi'n gwybod a yw wedi llwyddo?	

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i: Pwyllgor Archwilio Cymunedau

Dyddiad y Cyfarfod: 1 Mawrth 2012

Awdur yr Adroddiad: Cydgysylltydd Archwilio

Teitl: Rhaglen Waith Archwilio

1. Beth yw testun yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno blaen-raglen waith ddrafft y Pwyllgor Archwilio Cymunedau er ystyriaeth yr aelodau

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I ofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen waith i'r dyfodol, ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

3. Beth yw'r argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd ac yn cymeradwyo, adolygu neu addasu ei raglen waith i'r dyfodol fel ag sy'n briodol.

4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi bod yn rhaid i bwyllgorau archwilio baratoi a chadw llygad ar raglen o'u gwaith i'r dyfodol. Trwy adolygu a blaenoriaethu materion, mae aelodau'n gallu sicrhau bod y rhaglen waith yn esgor ar agenda sy'n cael ei arwain gan aelodau.

4.2 Gofynnir felly i'r Pwyllgor ystyried ei raglen waith ddrafft ar gyfer cyfarfodydd i'r dyfodol, fel y manylir yn atodiad 1, a'i chymeradwyo, ei hadolygu neu ei haddasu fel ag sy'n briodol gan roi ystyriaeth:

- i faterion a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor
- i faterion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio
- ei pherthnasedd i flaenoriaethau'r Pwyllgor/Cyngor/cymuned
- i Gynllun Corfforaethol y Cyngor ac Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- i lwyth gwaith cyfarfodydd
- i amseroldeb
- i ddeilliannau
- i faterion a gwybodaeth allweddol i'w cynnwys mewn adroddiadau

- i'r broses o drefnu testunau yn ymwneud ag addysg sy'n gofyn am bresenoldeb yr aelodau addysg statudol a gyfetholwyd
 - i swyddogion a/neu aelodau Cabinet y dylid eu gwahodd (ar ôl ystyried os yw eu presenoldeb yn hanfodol neu a fyddai eu presenoldeb yn ychwanegu gwerth)
 - i gwestiynau i'w rhoi gerbron swyddogion/aelodau Cabinet
- 4.3 Wrth ystyried eitemau i'r dyfodol i'w cynnwys yn y blaen-raglen waith, gall fod yn ddefnyddiol i aelodau ystyried y cwestiynau canlynol wrth benderfynu os yw testun yn addas i'w gynnwys yn y rhaglen waith:
- beth yw'r mater?
 - pwy yw'r rhanddeiliaid?
 - beth sydd dan sylw mewn manau eraill?
 - beth sy'n rhaid i archwilio ei wybod? a
 - pwy all gynorthwyo?
- 4.4 Fel y nodwyd ym mharagraff 4.1 uchod, mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi bod yn rhaid i bwyllgorau archwilio baratoi a chadw llygad ar raglen o'u gwaith i'r dyfodol. I gynorthwyo gyda'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw swyddogion o'r farn bod testun yn haeddu amser trafodaeth ar agenda busnes y Pwyllgor, yna mae'n rhaid iddynt ofyn yn ffurfiol i'r Pwyllgor ystyried derbyn adroddiad ar y testun hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynnig' sy'n nodi pwrpas, pwysigrwydd a deilliannau posibl y testunau gaiff eu cynnig. Ni dderbyniwyd unrhyw ffurflenni o'r fath i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.
- 4.5 Pwyllgor nesaf y Pwyllgor ar 12 Ebrill yw'r un olaf sydd wedi'i drefnu i'r flwyddyn fiwnisipal hon, a'r olaf i dymor y Cyngor hwn. Ar hyn o bryd, rhestrwyd tair eitem fusnes i'w trafod yn y cyfarfod hwnnw. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a oes yna unrhyw feysydd neu destunau a allai elwa o gael eu harchwilio cyn diwedd y flwyddyn fiwnisipal a diwedd tymor y Cyngor cyfredol.
- 4.6 Bydd Aelodau yn gweld o'r rhaglen ddrafft sydd ynghlwm bod nifer o eitemau a restrir o dan 'Materion i'r Dyfodol' y mae gofyn i'r Pwyllgor nodi pwrpas yr adroddiadau a'r deilliannau dymunol i'w cyflawni o archwilio'r testunau hyn. Clustnodwyd y testunau/meysydd hyn mewn sesiwn hyfforddi a gynhaliwyd i aelodau'r Pwyllgor cyn cyfarfod cyntaf y Pwyllgor. I alluogi swyddogion i ddechrau paratoi'r adroddiadau sydd i'w cyflwyno yng nghyfarfodydd y dyfodol, gofynnir i'r Pwyllgor nodi pam ei fod yn dymuno derbyn adroddiadau ar y testunau hyn a beth y mae'n disgwyl ei gyflawni o'u harchwilio. Dylai'r pum cwestiwn a restrir ym mharagraff 4.3 gynorthwyo aelodau yn y dasg hon.
- 4.7 Blaen-raglen Waith y Cabinet
Mae copi o flaen-raglen waith y Cabinet ynghlwm fel Atodiad 3. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn cael y ddogfen hon yn ddefnyddiol wrth ystyried pa eitemau i'w cynnwys ar ei raglen waith i'r dyfodol.

- 4.8 **Cynnydd a Wnaed gyda Phenderfyniadau'r Pwyllgor**
Mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn hysbysu aelodau o'r cynnydd a wnaed o ran eu gweithredu ynghlwm fel Atodiad 3 i'r adroddiad hwn.

5. **Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio**

- 5.1 Yn ôl y trefniadau newydd, mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio (SCVCG) wedi derbyn rôl pwyllgor cydgysylltu Yn unol â chais y Pwyllgor hwn, fe ystyriodd yr SCVCG yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror pa Bwyllgor a fyddai'r Pwyllgor mwyaf priodol i archwilio'r Strategaeth i Orllewin Rhyl. Yn dilyn trafodaeth o'r cais hwn, daeth y Grŵp i'r casgliad bod y Strategaeth yn syrthio o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio Cymunedau.
- 5.2 Felly gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr eitem hon yn ei flaenraglen waith a hefyd i benderfynu pa agweddau y mae'n dymuno eu harchwilio a'i amcanion wrth eu harchwilio. Bydd y cwestiynau a restrir ym mharagraff 4.3 yn cynorthwyo'r Pwyllgor yn y dasg hon.

6. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd archwilio effeithiol yn cynorthwyo'r Cyngor i wireddu ei flaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedol a dyheadau preswylwyr. Bydd datblygu ac adolygu rhaglen waith gydlynol yn barhaus yn cynorthwyo'r Cyngor wrth fonitro ac adolygu materion polisi.

7. **Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'n bosibl y bydd angen i wasanaethau ddyrannu amser swyddog i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r gweithgareddau a nodwyd yn y blaenraglen waith, a gydag unrhyw weithredoedd all godi yn dilyn ystyriaethau o'r eitemau hynny.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Nid oedd angen dim i'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad ei hunan a'r gwaith o ystyried y blaenraglen waith yn cynrychioli proses ymgynghori gyda'r Pwyllgor mewn perthynas â'i raglen gwaith i'r dyfodol.

9. **Beth yw'r risgiau, ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Ni chafodd unrhyw risgiau eu hadnabod mewn perthynas ag ystyried blaenraglen waith y Pwyllgor. Fodd bynnag, wrth adolygu ei flaen-

raglen waith yn rheolaidd, gall y Pwyllgor sicrhau bod meysydd risg yn cael eu hystyried wrth iddynt gael eu hadnabod, a bod argymhellion yn cael eu cynnig gyda golwg ar ymdrin â'r risgiau hynny.

10. Pŵer i wneud y penderfyniad

Mae Erthygl 6.3.7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod yn rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi a chadw llygad ar raglen o'u gwaith i'r dyfodol.

Swyddog Cyswllt:

Cydgysylltydd Archwilio, Rhif Ffôn: (01824) 712554

Ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

Note: Items entered in *italics* have not been approved for submission by the Committee. Such reports are listed here for information, pending formal approval.

Meeting	Item (description / title)	Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered
12 April	1 'Closer to the Community' – Community Engagement Strategy	Presentation of the agreed Community Engagement Strategy and consideration of the action plan for its delivery	Monitoring the implementation of the strategy which will improve communication between the Council, stakeholders and the community should ensure the Authority delivers high quality services which residents desire	David Davies	September 2011
	2 Getting Closer to the Community – Action Plan	Monitor progress in implementing and achieving the actions set out in the action plan	Identification of slippages against the action plan or other actions which may need to be included in the action plan, will assist the Council to come closer to its communities	Hywyn Williams	October 2011
	3 Common Access Route to Housing [Communities initially, could eventually be Partnerships]	To present the findings of the feasibility study into the provision of a common access route to housing	Development of a common mechanism for accessing affordable housing, and allocation policies and procedures for a number of local authorities and Registered Social Landlords who work closely with the authorities	Simon Kaye	December 10 (rescheduled September 2011)
	4.				
24 May (provisionally)	1 Estyn Adult Community Education Inspection [Education]	To consider the findings of the Estyn Inspection of Adult Community Education Inspection	Monitoring the implementation of actions identified to address the regulator's recommendations and to improve outcomes for adult learners in the county	Julian Molloy	December 2011

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

Meeting	Item (description / title)	Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered
July (date to be confirmed) Potential Special Joint Meeting with Partnerships Scrutiny Committee	1 NHS Service Reviews	To consider the proposals for the reconfiguration of the delivery of NHS Services in North Wales	Evaluation of the impact of the reviews on the residents of Denbighshire will assist the Council to commence its planning for future public service health and care provision in the county and identify future budgetary pressures	Sally Ellis/BCU	By SCVCG November 2011 (rescheduled January 2012)
July	1 Management of allocation of Section 106 Commuted Sums for open space provision and Community Infrastructure Levy(CIL)	To monitor the effectiveness of the management arrangements and funds received and committed (report to include the time limits applicable to each commuted sum)	Effective management of the commuted sums and CIL schemes will assist with the Council to deliver the regeneration priority and to bring the Council closer to the community	Graham Boase/Angela Loftus	July 2011
	2 Control of Caravan Sites	To present the proposed standard conditions and procedures developed by the Working Group for the purpose of controlling and monitoring caravan sites in both Denbighshire and Conwy as well as the feedback received at the Operators' Seminar	The development of a robust and collaborative approach to ensure that tourist sites contribute to the local economy and the delivery of the regeneration corporate priority	Graham Boase/Neil Jones (CCBC)	July 2011
	3 Allocation of Additional Resources to SEN in Primary Schools [Education]	To monitor the progress in developing a revised funding formula for one to one SEN support in primary schools	Effective targeting of financial SEN resources for primary schools to support and improve outcomes for individual pupils	Karen Evans/Carly Wilson	December 2011
	4 Day Services provision for Older People in the north of	Presentation of proposals to change service provision to	Development of effective and efficient services which meet	Helena Thomas/Phil	September 2011

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

Meeting	Item (description / title)	Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered (rescheduled from January)
	the county [Lead Member to attend]	vulnerable client group	service users/residents' needs and align to new methods of service delivery	Gilroy	

Future Issues

Item (description / title)	Purpose of report	Expected Outcomes	Author	Date Entered
Challenging Behaviour and its impact on Council services could possibly be an issue for Partnerships as joint working with BCU involved <i>(Committee to discuss whether this topic should be referred to the Partnerships Scrutiny Committee)</i>	An analysis of the impact of children's challenging behaviour on the Council's education and social services' functions	Identification of measures, or other Council services, which may assist education and social services to address challenging behaviour and ease budget and resource pressures in the long-term	Leighton Rees/Karen I Evans	March 11
[education] <i>The Quality and Provision of Community Facilities</i>	<i>The Committee to scope the purpose and expected outcomes</i>		Hywyn Williams/Jamie Groves/Diane Hesketh	May 2011
<i>Rural Transport</i>	<i>The Committee to scope the purpose and expected outcomes</i>		Peter Daniels	May 2011
<i>Rural Community Sustainability</i>	<i>The Committee to scope the purpose and expected outcomes</i>		Hywyn Williams/Jamie Groves/Diane Hesketh?	May 2011
<i>Access to the Countryside</i>	<i>The Committee to scope the purpose and expected outcomes</i>		Mark Dixon/Huw Rees	May 2011

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

Waste Management Provision	The Committee to scope the purpose and expected outcomes		Steve Parker/Ken Thompson	May 2011
Transfer of Services to Town Councils	The Committee to scope the purpose and expected outcomes		Hywyn Williams/Helen Burkhalter/Paul Mead	May 2011
The effectiveness of CCTV	The Committee to scope the purpose and expected outcomes		Graham Boase	May 2011
Wind Farms	The Committee to scope the purpose and expected outcomes		Graham Boase/Paul Mead	May 2011
Review of Heritage and Arts Assets (post May 2012)	The Committee to scope the purpose and expected outcomes following receipt of information report (see section below on information reports)		Steve Parker	May 2011
Flood Risk Areas within Denbighshire (autumn 2012)	Information on all areas within the County which are at risk from any type of flooding incidents and the plans in place to address the identified risks	Assurances that action has been taken or plans are in place to mitigate the risk of flooding to the identified communities and development of robust contingency plans	Wayne Hope	June 2011
Disposal of Council Buildings, Property and Land	Consideration of the Council's asset management/disposal strategy and the procedures/guidelines in place for disposing of Council assets	Assurances that due consideration is given to alternative uses, including community use, in all asset disposals, and that all asset disposal transactions are open/transparent and are undertaken in the taxpayers' interest	Paul McGrady/Chris Davies	January 2012
Strategy for West Rhyl				SCVCG February 2012

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

For future years

Information/Consultation Reports

Information / Consultation	Item (description / title)	Purpose of report	Author	Date Entered
Information Report (for circulation in 2012) [education]	Impact of cessation of free school transport for pupils living within Wrexham County Borough Council who attend Ysgol Dinas Bran, Liangollen	To outline the impact of Wrexham County Borough Council's decision to withdraw free school transport to pupils from the County attending Ysgol Dinas Bran, Liangollen on the number of pupils attending the school, future projected pupil numbers, its future viability and the consequential implications for the community in and around Liangollen	Jackie Walley/Karen Evans	June 2011 (rescheduled July 11 and Oct 11)
Information [February 2012]	Heritage and Arts Assets	To outline the heritage and arts assets owned/operated by the Council, their annual running costs, profits/losses, how they are funded and the level of community use made of the assets if applicable	Steve Parker/Paul McGrady	December 2011
Information (June 2012)	Review of Licensing Procedures	Progress report on the implementation of the proposals, as agreed by the Committee in July 2011, to strengthen the Council's licensing procedures	Graham Boase/Wyn Jones (CCBC)	July 2011 rescheduled September 2011 and February 2012

21/02/2012

Communities Scrutiny Committee Forward Work Plan

Note for officers – Committee Report Deadlines

Meeting	Deadline	Meeting	Deadline	Meeting	Deadline
12 April	30 March	24 May (provisional)	10 May		

Communities Scrutiny Work Programme.doc

CABINET: FORWARD WORK PROGRAMME

20 MARCH 2012	
Finance Report 2011 -2012	Councillor J Thompson Hill P McGrady
Corwen Town Plan	Councillor D A J Thomas M Dixon
Llangollen Town Plan	Councillor D A J Thomas M Dixon
Monitoring Performance Against the Corporate Plan	Councillor H H Evans T Ward
Scala Cinema & Arts Centre, Prestatyn	Cllr P.A. Dobb / P McGrady
Prestatyn Town Plan	Councillor D A J Thomas M Dixon
Regional Collaboration on Economic Regeneration Purpose: Approval for the governance arrangements for priority collaborative activities	Councillor David Thomas / Mark Dixon
Regional Collaborative Committees. Purpose: Formal consideration of participation in shadow and finalised Regional Collaborative Committee (RCC) for the Supporting People Programme. Awareness of financial implications of Supporting People programme changes.	Cllr P A Dobb / Sally Ellis / Jenny Elliot
Supporting People Strategy Update and Operational Plan 2012 – 13	Councillor P A Dobb Gary Major
Tender Exemption – Seashells Supported Housing Contract	Gary Major / Cllrs P A Dobb & J Thompson Hill
Approval for NEWTRA Partnership Agreement	Bethan Jones
The Honey Club Site, Rhyl – Developer Interest	Cllr P.J. Marfleet /Chris Davies
Recommendations from Scrutiny Committees	Scrutiny Coordinator
24 APRIL 2012	
Finance Report 2011 -2012	Councillor J Thompson Hill P McGrady
ABBA Floating Support Project – Contract Award	Gary Major / Cllr P A Dobb
Mental Health Homeless Supported Housing – Contract Award	Gary Major / Cllr P A Dobb
The Proposed Denbighshire Community Endowment Fund. Purpose: To receive Cabinet approval for a new approach to deal with the dormant trust funds.	Councillor H H Evans / Hywyn Williams
Recommendations from Scrutiny Committees	Scrutiny Coordinator

FUTURE ISSUES

JUNE 2012	
Regional CCTV	Councillor Sharon Frobisher / Graham Boase
DECEMBER 2012	
Welsh Housing Quality Standards	Councillor David Thomas / Peter McHugh

Progress with Committee Resolutions

Date of Meeting	Item number and title	Resolution	Progress
8 December 2011	6. Denbighshire Adult Community Education Estyn Inspection	<p>RESOLVED – that the Committee:-</p> <p>(a) note and understands the priorities and organisation of adult community education in Denbighshire and the partnership with Conwy Council as identified in the report;</p> <p>(b) subject to the inclusion of sufficient information on the availability of potential funding streams for adult education in rural areas in the document , endorses the Self Assessment Report developed jointly with partners and the Quality Improvement Plan;</p> <p>(c) is of the view that the 15% statistic of overall teaching across the partnership being adequate was not accepted, and therefore should be addressed; and</p> <p>(ch) receives a report summarising the outcome of the Estyn Inspection when available.</p>	Awaiting confirmation of inclusion
19 January 2012	4. North Wales Police Estate Review	<p>RESOLVED – that,</p> <p>a) the Committee receive the presentation and note</p>	Provisionally scheduled into the work programme for May/June's meeting

		<p><i>the factors that had motivated the Estate Review; and</i></p> <p><i>b) an official response be drafted and submitted to North Wales Police Authority, formally noting the Committee's comments and recommendations</i></p>	<p>Response sent by the required deadline (copy circulated to members in Information Brief)</p>
	<p>6. Foryd Harbour Mooring Fees and Charges</p>	<p>RESOLVED – that the scheduled item on the Foryd Harbour Mooring Fees and Charges be deferred to next meeting of the Communities Scrutiny Committee to be held on 1st March, 2012.</p>	<p>Item on current meeting's agenda</p>
	<p>7. Local Housing Strategy</p>	<p>RESOLVED – that the Committee</p> <p>a) notes the progress made against the Local Housing Strategy action plan 2011/12 and the challenges encountered in achieving the key actions;</p> <p>b) recommends the key headline projects listed in the report for inclusion in the revised Local Housing Strategy 2012/17 and that significant emphasis should be included in the revised Strategy on the need to bring empty homes back into occupation; and</p> <p>c) recommends that the Scrutiny Chairs and Vice-Chairs Group considers the most appropriate Committee to scrutinise the Strategy for West Rhyl;</p>	<p>Scrutiny Chairs and Vice-Chairs Group discussed this matter at its meeting on 16 February and recommended that Communities Scrutiny Committee take</p>

	<p>8. Highway Verges Grass Cutting</p>	<p>RESOLVED – that, having considered the proposals for the provision of grass verge cutting, the Committee recommends that</p> <p>a) Option 1 is implemented in the AONB on all routes which are deemed safe for a Biodiversity cut, and that Option 2 is implemented across the remainder of the County's roads;</p> <p>b) the current arrangement for outsourced work be retained subject to capacity and quality monitoring measures being taken ; and</p> <p>c) a timetable of scheduled grass cutting plans be published and distributed to town and community councils and Member Area Groups.</p>	<p>ownership of scrutinising the strategy</p> <p>Officers from the Highways Department will take these actions forward</p>
--	---	--	--

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag